Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

## Canllawiau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

17 Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46678, ISBN digidol 978-1-80535-581-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhagair gan y Gweinidog

Derbyniodd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Mae'n ddeddfwriaeth bwysig, yr enghraifft gyntaf o'i bath yn y DU. Rydym yn hynod falch o'r ddeddfwriaeth arloesol hon, a byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod ei nodau yn cael eu cyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

Un o'r prif ddulliau o gyflawni'r Ddeddf yw'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rwy'n falch o lansio'r canllawiau statudol ac ategol hyn sy'n amlinellu'r Fframwaith a'i ofynion, a hynny llai na blwyddyn ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym.

Mae'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn defnyddio amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus am lawer o resymau. Efallai eu bod mewn cysylltiad â'r heddlu ynghylch y cam-drin a brofir ganddynt. Ond yn rhy aml o lawer nid dyma'r achos. Mae'n llawer mwy tebygol eu bod mewn cysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus am broblemau tai, bod angen sylw meddygol arnynt neu eu bod yn rhan o'r system addysg. Rhaid i bob un o'r gwasanaethau hyn agor y drws i gymorth i ddioddefwyr a chynnig cyfleoedd ymyrryd cynnar ac atal.

Bydd ein Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, sef y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, yn cynnig hyfforddiant cymesur er mwyn atgyfnerthu'r ymateb a ddarperir ledled Cymru i'r rheini sy'n profi'r materion hyn. Bydd yn ffurfioli gofynion y rheini sy'n cynnig gwasanaethau arbenigol a chyffredinol ac yn codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o'r fath drais a chamdriniaeth. Bydd yn gwneud hyn mewn cyd-destun cenedlaethol sy'n sicrhau bod ansawdd hyfforddiant a'r ymarfer proffesiynol gofynnol yn cael eu safoni. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau, ni waeth ble mae dioddefwr yn byw yng Nghymru, fod yr ymateb proffesiynol a gaiff yn gyson dda.

Rwyf wedi bod yn ddiolchgar am yr adborth y mae rhanddeiliaid wedi'i roi ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae wedi cynnig cyngor ymarferol i gael y Fframwaith yn iawn ac mae wedi ystyried barn goroeswyr sydd wedi ein helpu i ddeall pam a ble mae angen hyfforddiant a beth ddylai ei gwmpasu.

Rwy'n hyderus y bydd y fframwaith hwn, ynghyd â chanllawiau a pholisi a ddaw yn y dyfodol, yn trawsnewid ein hymateb i'r rhai sy'n profi effaith pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae gofynion y Fframwaith yn amrywio o fwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff, hyfforddiant arbenigol i weithwyr rheng flaen perthnasol a chymwysterau proffesiynol ar gyfer rhai staff allweddol.

Mae'n gam cyntaf pwysig yn y gwaith o sicrhau, ni waeth ble mae dioddefwr yn byw yng Nghymru, y gall fod yn hyderus y caiff wasanaeth ac ymateb effeithiol ac empathetig.

**Leighton Andrews AC**

**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**


| Adran | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Yr iaith a ddefnyddir yn y Fframwaith | 2 |
| 2 | Diffiniadau | 3 |
| 3 | Crynodeb gweithredol | 5 |
| 4 | Canllawiau a ddyroddir o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | 8 |
| 5 | Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 17 |
| 6 | Grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 29 |
| 7 | Grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 32 |
| 8 | Grŵp 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 37 |
| 9 | Grŵp 4 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 40 |
| 10 | Grŵp 5 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 44 |
| 11 | Grŵp 6 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 46 |
| 12 | Y maes llafur pwnc arbenigol | 49 |
| 13 | Y cynllun cyflenwi a'i ddosbarthiad | 54 |
| Atodiad 1 | Gweithwyr proffesiynol a nodwyd yn flaenoriaeth ar gyfer grŵp 2 yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus | 58 |
| Atodiad 2 | Integreiddio posibl â modelau dysgu presennol | 60 |
| Atodiad 3 | Cyrsiau hyfforddi priodol ar gyfer grŵp 4 | 62 |
| Atodiad 4 | Rôl yr eiriolwr yn erbyn Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (lefel swyddog) | 67 |
| Atodiad 5 | Maes llafur pwnc arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 69 |

## 1. Yr iaith a ddefnyddir yn y Fframwaith

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ymdrin â phob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith wedi'i enwi er mwyn sicrhau bod ffocws - drwy gyflenwi - ar fathau penodol o drais a cham-drin sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched. Dengys tystiolaeth bod menywod yn profi'n anghymesur achosion mynych o gam-drin domestig, pob math o drais rhywiol a mathau eraill o drais a cham-drin megis priodasau dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

Er ei bod yn bwysig i'r profiad anghymesur hwn gael ei gydnabod a'i gyfleu drwy hyfforddiant, diben y Fframwaith yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi er mwyn ymateb yn effeithiol i unrhyw un sy'n profi unrhyw fath o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriadau yn y canllawiau hyn at "drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol" neu "drais a cham-drin" yn cwmpasu pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'i diffinnir yn adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Profir rhai mathau o drais a cham-drin sy'n bodloni'r diffiniadau hyn o fewn lleoliadau teuluol ac mewn perthnasoedd, gan gynnwys perthnasoedd o'r un rhyw, rhwng aelodau o'r teulu a chan ddynion a gaiff eu cam-drin gan fenywod. Fel y cyfryw, bydd hyfforddiant ar gyfer pob grŵp yn y Fframwaith yn cydnabod effaith anghymesur y mathau hyn o drais a cham-drin ar fenywod ond bydd yn cynnwys pob dioddefwr posibl.

Bydd y maes llafur pwnc arbenigol yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant a fydd yn canolbwyntio'n bennaf, neu'n gyfan gwbl, ar brofiad menywod ac efallai y bydd rhywfaint o hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf, neu'n gyfan gwbl, ar brofiad dynion. Bydd hyn yn dibynnu ar bwnc trafod yr hyfforddiant ac mae'n cydnabod y gall profiad dynion a menywod o'r mathau hyn o drais a cham-drin fod yn wahanol a'i fod, yn aml, yn gofyn am ymateb proffesiynol gwahanol sy'n ystyried y gwahaniaethau hyn.

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn gofyn am ddarparu hyfforddiant mewn ffordd ychydig yn wahanol sy'n ymateb yn effeithiol i fenywod a dynion, yn cyfrif am eu profiadau gwahanol ac yn diwallu eu hanghenion yn briodol. Bydd y dadansoddiad o anghenion hyfforddi sy'n ofynnol gan y canllawiau hyn a'r asesiad strategol ehangach o anghenion sydd ei angen er mwyn datblygu strategaethau lleol ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn helpu ardaloedd lleol i gynnig hyfforddiant cymesur a arweinir gan anghenion.

## 2. Diffiniadau

**Achredu:** At ddibenion y canllawiau hyn, mae'r term "achredu" yn disgrifio awdurdodi neu gymeradwyo cwrs hyfforddi a ddarperir gan gorff swyddogol pan fydd safonau cydnabyddedig wedi eu cwrdd.

**Aflonyddu:** Math o ymddygiad gan berson lle mae'n gwybod neu lle dylai wybod ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu'r person arall; ac at ddiben y diffiniad hwn:

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod:** Gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003 (c. 31).

**Awdurdod Lleol:** Cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

**Awdurdodau perthnasol:** cynghorau sir a bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

**Cam-drin**: Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

**Cam-drin domestig:** Cam-drin lle mae'r dioddefwr yn, neu wedi bod yn, gysylltiedig â'r camdriniwr.

**Camfanteisio rhywiol:** Rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson

**Cleient:** Defnyddir y term cleient yma i ddisgrifio person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term yn cwmpasu'r termau "dioddefwr", "goroeswr", "defnyddiwr gwasanaeth" a "claf". Mae gwahanol bartneriaid yn defnyddio gwahanol eiriau i ddiffinio eu perthynas â'r person sy'n wynebu risg ac, felly, mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn.

**Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig**: Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel.

**Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol:** Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr cam-drin rhywiol.

**"Gofyn a Gweithredu":** Proses ymholi wedi'i thargedu a gyflawnir gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a phroses ymholi reolaidd gan wasanaethau mamau a bydwreigiaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl a cham-drin plant.

**Gwasanaeth cyhoeddus:** Gwasanaethau sy'n cael eu darparu er budd y cyhoedd yw gwasanaethau cyhoeddus. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector, gan fentrau cymdeithasol neu gan wasanaethau sydd ar gontract allanol.

Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddiben y diffiniad o “gam-drin domestig” os yw’n dod o dan y diffiniad yn adran 21(2) neu (3) o'r Ddeddf Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Cymru).

**"Trais ar sail Rhywedd"**
(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr â neu’n golygu aflonyddu os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y math o ymddygiad yn gyfystyr â neu’n golygu aflonyddu person arall

(a) sy'n golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (c. 42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu

(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy’n codi yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy’n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
(b) a fyddai'n golygu cyflawni trosedd o’r fath pe bai’n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.
(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;
(b) mae “ymddygiad” yn cynnwys iaith lafar;

(c) gorfodi person (p’un ai drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (p’un ai a yw'n ei rwymo’n gyfreithiol ai peidio);

**Trais Rhywiol:** Camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol.

**Trais yn erbyn menywod**: Y profiad o drais ar sail rhywedd gan fenywod.

**Y Ddeddf:** Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
Yng nghyd-destun y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, diffinnir y gwasanaeth cyhoeddus ar sail amcan o 'weithwyr sector cyhoeddus datganoledig' yng Nghymru - sy'n cynnwys y gwasanaeth sifil datganoledig, awdurdodau lleol, iechyd, awdurdodau addysg a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Er heb eu datganoli, mae Awdurdodau’r Heddlu wedi eu cynnwys oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn eu hariannu’n rhannol. Mae ‘gweithwyr sector cyhoeddus datganoledig’ yn eithrio gweision sifil heb eu datganoli (fel y sawl sy'n gweithio i CThEM a’r DVLA), personél milwrol a phobl a gyflogir gan Gorfforaethau Cyhoeddus (fel S4C a Bws Caerdydd ac ati) yng Nghymru.
Yn ymarferol, awgrymir bod person sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dewis y term sydd orau ganddo i'w ddefnyddio, lle mae angen term. Yn gyffredinol, dylai fod yn bosibl defnyddio enw cleient yn hytrach na thermau disgrifiadol eraill.

## 3. Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio ac yn darparu canllawiau ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dyroddir adran 4 o'r canllawiau o dan adran 15 o'r Ddeddf ac mae'n amlinellu gofynion penodol ar awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 14 o'r Ddeddf) mewn perthynas â'r Fframwaith.

Dyroddir gweddill y canllawiau o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n amlinellu canllawiau i gynorthwyo Awdurdodau Perthnasol i weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn ogystal â chynorthwyo unigolion â diddordeb i ymgysylltu â'r Fframwaith a chael budd ohono. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at brif ganllawiau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn gyfeiriad at weddill y canllawiau hyn.

Mae’r rhai sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith rhai o’r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Maent yn defnyddio ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a rhaid i staff pob un o’r rheini fod yn ymwybodol o'r materion a'u heffaith, meddu ar y sgiliau i adnabod arwyddion trais a cham-drin, cael cleientiaid i ymgysylltu’n effeithiol a darparu gwasanaethau i deuluoedd.

At hynny, rhaid i’r rhai yn y proffesiynau sy’n darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr trais o'r fath arbenigo yn eu gwaith a chynnig y safon uchaf o ofal a gweithio mewn gwasanaethau gydag arweinyddiaeth gref.

Mae’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi’i fapio yn erbyn y teithiau posibl y gallai dioddefwr trais neu gamdriniaeth o'r fath eu cymryd drwy wasanaethau cyhoeddus ac arbenigol. Diben y gwaith mapio hwn yw gweithio ar sail yr asesiad ehangaf o anghenion - yn amrywio o ymwybyddiaeth ac atal, i adnabod, ymgysylltu pendant a chefnogol i gamau adfer a chefnogaeth tymor hwy. Bydd Fframwaith sy'n seiliedig ar yr asesiad hwn o anghenion yn esgor ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth gynnar ac argyfwng, ymddygiadau a pheryglon risg uchel a chefnogaeth tymor hwy yng nghyswllt trawma ac anghenion cymhleth.[1]

Er mwyn creu safon gyson o ofal i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a safon gwasanaeth ddi-ffael ymhob gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid, mae gan y Fframwaith ddwy brif swyddogaeth:

1) Rhoi hyfforddiant cyson wedi’i ledaenu’n gymesur i’r awdurdodau perthnasol er mwyn gwella dealltwriaeth sylfaenol y gweithlu a, thrwy hynny, yr ymateb i'r rhai sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

2) Cysoni’r hyfforddiant arbenigol presennol er mwyn proffesiynoli’r sector arbenigol ymhellach, gwella cysondeb yr hyfforddiant mewn pynciau arbenigol

[1]Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y posibilrwydd na fydd y sawl sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn uniaethu â'r term "dioddefwr" a bod yn well ganddynt "goroeswr" neu "cleient". Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term "dioddefwr" yma i ddisgrifio'r profiad o gam-drin a thrais ond mae'n cydnabod bod profiadau'n unigol.

ar lefel genedlaethol a gosod gofynion craidd ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Mae'r Fframwaith a chynnwys y ddogfen hon wedi'u datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac mewn ymgynghoriad â'r rheini sydd wedi profi trais a cham-drin neu wedi ceisio help yn hynny o beth. Dyfynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth drwy gydol y ddogfen hon er mwyn dangos diben y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r angen amdano.

Dengys y diagram isod rôl y grwpiau o fewn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol mewn perthynas â'r rhyngweithio posibl rhwng dioddefwr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwasanaethau cyhoeddus a sector arbenigol Cymru a diben posibl rhyngweithio o'r fath; o gamau ataliol a chodi ymwybyddiaeth i wasanaethau argyfwng.

Taith y Dioddefwr

**Atal** → **Datgelu** → **Ymgysylltu** → **Cymorth** → **Adfer**

| Cydberthnasau iach | Grŵp 1 | Grŵp 2 | Grŵp 3 | Grŵp 4 |
|---|---|---|---|---|
| Atal | Codi ymwybyddiaeth | Gofyn a Gweithredu | ymyrryd mewn argyfwng / ymddygiad risg uchel | natur agored i niwed |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg gyhoeddus | Staff, cyrff cyhoeddus, datganoledig, annatganoledig, trydydd sector | Y sawl sy'n debygol o gyfarfod â'r rheini sy'n profi cam-drin | Y sawl a wnaiff ddarparu gwasanaeth (o fewn rôl gyffredinol) i'r rheini sy'n profi cam-drin, e.e. arweinwyr diogelu | Y sawl sy'n darparu gwasanaeth arbenigol mewn argyfwng (IDVA, Refuge) | Y sawl sy'n darparu gwasanaeth ymyrryd arbenigol (Allgymorth, cymorth fel y bo'r angen) |
| | Cam-drin domestig, trais rhywiol, Priodas dan Orfod, Trais ar sail "Anrhydedd", Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, caethwasiaeth, stelcio ac aflonyddu<br>• Beth yw hwn? Ar bwy mae'n effeithio?<br>• Beth ddylid ei wneud amdano?<br>• Pwy all helpu? | Arwyddion/symptomau/risgiau<br><br>"Gofyn": Codi'r mater<br><br>Gweithredu: Rhannu gwybodaeth Cyfeirio/atgyfeirio<br><br>Llwybrau gofal a gwaith amlasiantaethol | Asesu risg<br><br>Diogelwch Syth<br><br>Llwybrau gofal a gwaith amlasiantaethol | Sgiliau er ymgysylltu'n arbenigol â dioddefwr: risg, diogelwch, gwaith amlasiantaethol, gweithio mewn partneriaeth, y System Cyfiawnder Troseddol (yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Prawf), effeithiau ar iechyd, defnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd, stelcio, trais ar sail anrhydedd/priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, systemau cyfreithiol dinesig, diogelu plant, gweithio gyda CAFCASS, cyllid, dim hawl i arian cyhoeddus | |

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol | Achrediad | Grŵp 5: hyfforddiant rheoli

Hyfforddiant gorfodol, statudol: diogelu plant, diogelu oedolion agored i niwed

Grŵp 6 YMGYSYLLTU STRATEGOL: Strategaeth, Polisi, Sbarduno newid

| Safonau gofynnol cyffredinol (10,000 o fywydau mwy diogel) | | | | Safonau gwasanaeth arbenigol ar gyfer darparu |
|---|---|---|---|---|
| Gwell ymwybyddiaeth | Mwy o ddatgelu | Gwell ymgysylltu | Cymorth effeithiol | Achosion hirdymor o roi'r gorau iddi/perthynas gamdrin fyrrach |

## 4. Canllawiau a ddyroddir o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Cyhoeddir yr adran hon o'r canllawiau o dan adran 15 o'r Ddeddf. Cyflwynir y rhan fwyaf o'r canllawiau i bob awdurdod perthnasol fel y'i diffinnir yn adran 14 o'r Ddeddf[2]. Lle mae'r canllawiau ond yn gymwys i un awdurdod perthnasol, neu nifer benodol o awdurdodau perthnasol, gwneir cyfeiriad penodol. Lle na wneir unrhyw gyfeiriad, rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol lynu wrth y canllawiau hyn.

Yn unol ag adran 17 o'r Ddeddf, rhaid i awdurdodau perthnasol, neu awdurdodau perthnasol penodol y mae gofynion penodol yn yr adran hon o'r canllawiau yn gymwys iddynt, ddilyn y camau a nodir yn yr adran hon o'r canllawiau.

Fodd bynnag, nid oes angen i awdurdod perthnasol ddilyn y rhan hon o'r canllawiau os:

1. cred fod rheswm da dros iddo beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau penodol o achosion, neu beidio â'u dilyn o gwbl,
2. mae'n penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phwnc y canllawiau, ac
3. mae datganiad polisi a gyhoeddir gan yr awdurdod yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf yn cael effaith.

Mae adran 18 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r datganiad polisi a gyhoeddir gan awdurdod perthnasol nodi sut mae'r awdurdod perthnasol yn bwriadu i swyddogaethau gael eu harfer mewn ffordd wahanol i'r llwybr a nodir yn y rhan hon o'r canllawiau a rhesymau'r awdurdod dros fwriadu dilyn y drefn wahanol honno. Rhaid i'r datganiad polisi gael ei gyhoeddi a rhaid i gopi gael ei anfon at Weinidogion Cymru.

O dan adran 19 o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdodau perthnasol i gymryd unrhyw gamau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddiben sicrhau bod yr awdurdod yn arfer swyddogaethau yn unol â'r adran hon o'r canllawiau lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw polisi amgen yr awdurdod (yn llwyr neu'n rhannol) yn debygol o gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf[3]. Bydd cyfarwyddyd yn orfodadwy drwy orchymyn gorfodol ar gais, neu ar ran, Gweinidogion Cymru i'r Uchel Lys. Os na ddilynir gorchymyn gorfodol cyflawnir dirmyg llys a all arwain at ddirwy.

### Cynlluniau hyfforddi lleol

Rhaid i awdurdodau perthnasol baratoi cynllun hyfforddi a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Mawrth 2017.

---

[2] Awdurdodau Lleol (a ddiffinnir yn adran 24(1) fel cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru), Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

[3] Diffinnir diben y Ddeddf yn adran 1 o'r Ddeddf fel a ganlyn: gwella - (a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; (b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac (c) helpu pobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi templed cynllun hyfforddi i bob awdurdod perthnasol. Rhaid i'r templed gael ei ddefnyddio wrth ddrafftio'r cynllun hyfforddi.[4]

Rhaid i gynlluniau hyfforddi lleol naill ai gael eu cyflwyno ar sail ranbarthol fel yr olion troed rhanbarthol a nodwyd o dan grŵp 2 neu fel un awdurdod perthnasol (gweler tudalen 12).

Os bydd awdurdodau perthnasol yn llunio cynlluniau hyfforddi ar sail yr ôl-troed rhanbarthol:

- Rhaid i'r awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer pob rhanbarth ethol Awdurdod Lleol ("awdurdod etholedig") o fewn yr ôl-troed rhanbarthol a fydd yn cyflwyno'r cynllun hyfforddi lleol ar ran yr awdurdodau perthnasol eraill yn y rhanbarth.
- Rhaid i'r awdurdod etholedig enwebu unigolyn o fewn yr awdurdod a fydd yn arweinydd rhanbarthol ar gyfer y gwaith o gydgysylltu a gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ("arweinydd rhanbarthol"). Bydd yr unigolyn hwn yn cydgysylltu'r gwaith o lunio'r cynllun hyfforddi lleol.
- Lle bydd cydgysylltydd rhanbarthol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i benodi, dylai arwain y gwaith hwn.
- Yn ystod y broses o lunio'r cynllun hyfforddi lleol, rhaid i'r arweinydd rhanbarthol ymgynghori ag unrhyw Gydgysylltwyr Cam-drin Domestig sy'n gweithio mewn Awdurdodau Lleol.
- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a'r Awdurdod Tân ac Achub ym mhob rhanbarth enwebu unigolyn i arwain y gwaith o lunio'r cynllun hyfforddi lleol. Rhaid i'r arweinydd rhanbarthol ymgynghori â'r unigolyn hwn wrth lunio'r cynllun hyfforddi lleol.

Os bydd awdurdodau perthnasol yn llunio cynlluniau hyfforddi fel awdurdod perthnasol unigol:

Rhaid i bob awdurdod perthnasol enwebu unigolyn i arwain y gwaith o lunio'r cynllun hyfforddi lleol. Bydd yr unigolyn hwn yn cydgysylltu'r gwaith o lunio'r cynllun hyfforddi lleol.

Wrth baratoi'r cynllun hyfforddi lleol, rhaid i awdurdodau perthnasol ystyried dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol wedi'i gynnal gan yr awdurdod (gweler isod am y dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol), unrhyw asesiadau o anghenion a gynhaliwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015[5] ac unrhyw asesiadau llesiant lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhaid i'r cynllun hyfforddi lleol:

- ddarparu cynllun cyflenwi hyfforddiant pum mlynedd sy'n bodloni gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol;

[4] Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gyhoeddi'r templed hwn ym mis Medi.
[5] Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, roedd Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 wedi'u gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ôl y Rheoliadau, dylai'r asesiadau cyntaf o'r boblogaeth gael eu cynnal erbyn 1 Ebrill 2017

- rhoi manylion y grŵp llywio/bwrdd neu bartneriaeth a fydd yn goruchwylio ac yn monitro'r broses o gyflenwi'r cynllun hyfforddi lleol;
- nodi'r gweithiwr neu'r gweithwyr proffesiynol lleol a fydd yn arwain ac yn cydgysylltu'r cynllun cyflenwi;
- egluro sut y caiff consortia hyfforddi rhanbarthol eu sefydlu, gan gynnwys y bartneriaeth a sefydlir yn seiliedig ar ôl-troed rhanbarthol y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn bodloni gofynion grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith.[6]
- nodi sut y caiff y consortia hyfforddi rhanbarthol eu cydgysylltu a'u cynnal;
- rhoi manylion y ffordd y bydd awdurdodau perthnasol yn bodloni'r gofynion mewn perthynas â grwpiau 1 i 5 a'r maes llafur pwnc arbenigol fel y nodir isod;
- cynnwys cynllun sicrhau ansawdd er mwyn asesu'r safonau hyfforddiant a gynigir yn lleol a chynllun i ymdrin ag unrhyw gwymp mewn ansawdd. Rhaid i Sicrhau Ansawdd gynnwys adborth gan ddysgwyr.

O dan adran 5 o'r Ddeddf, rhaid i Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol baratoi strategaeth leol. O dan adran 6 o'r Ddeddf, rhaid i'r strategaeth leol gael ei chyhoeddi gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Cyn llunio'r strategaeth leol, rhaid i Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi eu cynllun hyfforddi lleol ar eu gwefan. Rhaid i'r cynllun hyfforddi lleol gael ei gyhoeddi o fewn 12 wythnos i 31 Mawrth 2017 (23 Mehefin 2017).

Pan fydd gan Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol strategaeth leol, rhaid i'r cynllun hyfforddi lleol ffurfio rhan o'r ddogfen hon[7].

Rhaid i Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi eu cynllun hyfforddi lleol ar eu gwefan. Rhaid i'r cynllun hyfforddi lleol gael ei gyhoeddi o fewn 12 wythnos i 31 Mawrth 2017 (23 Mehefin 2017).

### Dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol

Rhaid i'r cynllun hyfforddi lleol fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol, sydd, yn ei dro, yn seiliedig ar ofynion pob grŵp yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Rhaid i'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi gynnwys:

- ystyriaeth o brofiad dioddefwyr sy'n oedolion, plant a thramgwyddwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ôl diffiniad y Ddeddf;
- amlinelliad o'r hyfforddiant a gynigir yn lleol, cyn cyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ond sy'n ymdrin â'r canlyniadau dysgu yn y Fframwaith a chyrhaeddiad yr hyfforddiant hwn;
- amlinelliad o'r bylchau mewn hyfforddiant lleol, yn seiliedig ar ofynion y Fframwaith;

[6] Rhaid gwneud hyn hyd yn oed pan fydd awdurdod yn gweithio'n unigol i lunio cynllun hyfforddi a rhaid bod yn gysol â'r model cyflenwi atodol sy'n gysylltiedig â "Gofyn a Gweithredu. Gweler canllawiau Llywodraeth Cymru ar "Ofyn a Gweithredu".
[7] Rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol feddu ar strategaeth leol erbyn mis Mai 2018.

- ystyriaeth o'r boblogaeth leol a sut mae hyn yn effeithio ar anghenion hyfforddi proffesiynol lleol (gan gynnwys darparu hyfforddiant yn Gymraeg ac yn Saesneg);
- sawl gweithiwr proffesiynol yn yr Awdurdod Lleol sy'n perthyn i bob grŵp.

### Cyfrifoldebau gweithredol

Rhaid i'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gael ei gynnwys yng nghyfrifoldebau aelod o Fwrdd strategol neu weithredol yr awdurdodau perthnasol.

| Awdurdod perthnasol | Aelod cyfrifol |
|---|---|
| BILl | Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (cadeirydd y Bwrdd Diogelu/Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb corfforaethol am Ddiogelu). |
| ALl | Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr (â gwybodaeth/cyfrifoldeb corfforaethol am ddiogelu neu adnoddau dynol). |
| Ymddiriedolaeth GIG | Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (cadeirydd y Bwrdd Diogelu/Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb corfforaethol am Ddiogelu). |
| Awdurdod Tân ac Achub | Prif Swyddog Tân neu Brif Swyddog Tân Cynorthwyol |

- Bydd gan yr aelod cyfrifol gyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o weithredu a monitro'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac am gydgysylltu'r gwaith cysylltiedig ar lefel sefydliadol.  Rhaid i'r aelod cyfrifol:

- Ddiweddaru'r bwrdd perthnasol am faterion sy'n ymwneud â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Hysbysu'r bwrdd perthnasol am hynt y cynllun hyfforddi;
- Ar y cyd â'r bwrdd perthnasol, ystyried sut y gall y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gael ei gynnwys fel rhan o drefniadau hyfforddi cyfatebol sy'n gysylltiedig â diogelu.

### Yr adroddiad blynyddol

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol gymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion a nodir yn eu cynllun hyfforddi lleol. O ran pob blwyddyn ariannol, rhaid i awdurdodau perthnasol baratoi adroddiad blynyddol ar eu hynt yn cyflawni'r camau yn y cynllun, boed yn rhanbarthol neu'n lleol.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn wyth wythnos i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, gyda'r cyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-2018.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol:

- amlinellu'r hyfforddiant a gyflwynwyd dros y flwyddyn flaenorol a sut roedd yn cyfateb i amcanion y cynllun hyfforddi lleol ac yn bodloni gofynion pob grŵp

yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel y nodir isod yn yr adran hon o'r canllawiau;

- nodi cyfraddau cwblhau hyfforddiant pob grŵp yn y Fframwaith;
- nodi'r hyfforddiant a gynigiwyd yn lleol (gan gynnwys nifer y gweithwyr proffesiynol a gyrhaeddwyd, o ba grwpiau proffesiynol, mewn perthynas â pha bynciau);
- amlinellu sut y cafodd hyfforddiant ei gyflenwi a dangos yr ystyriwyd bod y cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd neu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn bodloni'r gofynion cyflenwi;
- darparu gwerthusiad wedi'i arwain gan y dysgwr o hyfforddiant lleol a chynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd;
- nodi a yw'r cynllun hyfforddi lleol yn dal i fod yn addas at y diben ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac amlinellu unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r broses gyflenwi er mwyn cyflawni'r cynnydd arfaethedig.

Defnyddir yr adroddiad blynyddol i fonitro gweithgarwch yn erbyn nodau cenedlaethol a rhanbarthol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Defnyddir yr adroddiad i nodi pryderon ynghylch hynt y gwaith a monitro'r amcanion hyfforddi sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol.

Rhaid i awdurdodau perthnasol hefyd gymryd y camau canlynol mewn perthynas â phob grŵp yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Grŵp 1**

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ddarparu hyfforddiant sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (fel y nodir ym mhrif ganllawiau'r Fframwaith) i bob aelod o staff o fewn yr amserlenni canlynol:

Rhaid i 50% o staff awdurdod perthnasol gael eu hyfforddi o fewn 12 mis i ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau hyn

Rhaid i 100% o staff awdurdod perthnasol gael eu hyfforddi o fewn 24 mis i ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau hyn

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol gynnwys hyfforddiant sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol mewn hyfforddiant sefydlu er mwyn sicrhau y caiff staff newydd yr hyfforddiant. Dylid gwneud hyn o fewn 6 mis i ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau hyn.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol fonitro cyfraddau cwblhau chwarterol yr hyfforddiant hwn a chymryd camau i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant yn yr amser a nodir.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ddarparu hyfforddiant gloywi sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol bob tair blynedd.

**Grŵp 2**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddarparu hyfforddiant er mwyn cyflawni deilliannau grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (fel y nodir ym mhrif ganllawiau'r Fframwaith) drwy gonsortia hyfforddi rhanbarthol sy'n gyson ag ôl-troed rhanbarthol Byrddau Iechyd Lleol, fel a ganlyn:

- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan gydag Awdurdodau Lleol Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili a Threfynwy.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag Awdurdodau Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gydag Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda gydag Awdurdodau Lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf gydag Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydag Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Awdurdod Lleol Powys.[8]

Rhaid i'r consortia hyn ystyried cynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub lleol ac Ymddiriedolaethau GIG lleol yn y consortia rhanbarthol, a dangos eu bod wedi ymgynghori â hwy.

Rhaid i'r consortia hyn hefyd wahodd gwasanaethau arbenigol (gan gynnwys y rhai yn y trydydd sector), yr heddlu a'r gwasanaeth prawf i gymryd rhan yn y consortia rhanbarthol.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru gynnwys hyfforddiant ar gyfer grwpiau 1, 2, 3 a 6 yn ei fframwaith dysgu a datblygu presennol a chyflwyno ei gynllun hyfforddi, dadansoddiad o anghenion hyfforddi a chynllun blynyddol ei hun yn seiliedig ar hyn i Weinidogion Cymru.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol sicrhau bod aelodau'r consortia rhanbarthol o Awdurdodau Perthnasol yn cael eu hyfforddi ar gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr a ardystir ac a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, dylid cymryd camau rhesymol fel bod aelodau eraill o'r consortia yn cael yr un hyfforddiant.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddarparu hyfforddiant (drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol) sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i grwpiau proffesiynol sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir ar gyfer grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (fel y nodir ym mhrif ganllawiau'r Fframwaith), sy'n gyson â'r cynllun hyfforddi lleol.

[8] Mae'r ôl-troed hwn yn adlewyrchu'r hyn a ddefnyddiwyd i weithredu gofynion hyfforddi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ddarparu hyfforddiant gloywi sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol bob dwy flynedd.[9]

**Grŵp 3**

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol sicrhau bod nifer gymesur o aelodau'r consortia rhanbarthol o Awdurdodau Perthnasol yn cael eu hyfforddi ar gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr a ardystir ac a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer grŵp 3 o'r Fframwaith (fel y nodir ym mhrif ganllawiau'r Fframwaith).

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol ddarparu hyfforddiant (drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol) sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i grwpiau proffesiynol sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir ar gyfer grŵp 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (gweler prif ganllawiau'r Fframwaith), sy'n gyson â'r cynllun hyfforddi lleol.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ddarparu hyfforddiant gloywi sy'n cyflawni deilliannau dysgu grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol bob dwy flynedd.

**Grŵp 4**

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod unrhyw gyflogai, a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr, sydd wrthi'n gweithio fel Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol, gweithiwr allgymorth, gweithiwr prosiect, gweithiwr achos, gweithiwr cymorth fel y bo'r angen, gweithiwr lloches, gweithiwr allweddol, gweithiwr argyfwng, gweithiwr cymorth eirioli, gweithiwr plant a phobl ifanc, hwylusydd gwaith grŵp tramgwyddwyr neu unrhyw rôl arall sy'n darparu cymorth arbenigol i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei hyfforddi i'r lefel briodol o fewn 12 mis i ddyroddi'r canllawiau hyn (fel yr amlinellir yn y Fframwaith). Rhoddir canllawiau ar gyrsiau hyfforddi priodol yn adran 3 o brif ganllawiau'r Fframwaith.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod unrhyw gyflogai, a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr, a gaiff ei recriwtio i weithio fel Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol, gweithiwr allgymorth, gweithiwr prosiect, gweithiwr achos, gweithiwr cymorth fel y bo'r angen, gweithiwr lloches, gweithiwr allweddol, gweithiwr argyfwng, gweithiwr cymorth eirioli, gweithiwr plant a phobl ifanc yn cael ei hyfforddi i'r lefel briodol o fewn 12 mis i ddechrau ei gyflogaeth.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod unrhyw gyflogai, a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw weithiwr, sy'n gweithio fel Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol, gweithiwr allgymorth, gweithiwr prosiect, gweithiwr achos, gweithiwr cymorth fel y bo'r angen, gweithiwr lloches, gweithiwr allweddol, gweithiwr argyfwng, gweithiwr cymorth eirioli, gweithiwr plant a phobl ifanc, hwylusydd gwaith grŵp tramgwyddwyr neu unrhyw rôl arall sy'n darparu cymorth arbenigol i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cwblhau rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus briodol, sy'n berthnasol i'r rôl bob blwyddyn (fel y nodir isod).

[9] Mae Adran 7 (tudalen 31) yn amlinellu ar ba ffurf y gellir cynnig hyn er mwyn ymdrin â materion gallu ac adnoddau o fewn sefydliadau.

Dylai gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus gweithwyr arbenigol gael eu cymhwyso ar sail pro rata fel a ganlyn:

| **Oriau contract proffesiynol** | **Datblygiad Proffesiynol Parhaus gofynnol** |
|---|---|
| 28 awr - 37.5 awr yr wythnos | 35 awr o DPP y flwyddyn |
| 17.5 - 27 awr yr wythnos | 21 awr o DPP y flwyddyn |
| 0 – 17 awr yr wythnos (i gynnwys gweithwyr sesiynol a gweithwyr y tu allan i oriau) | 10.5 awr o DPP y flwyddyn |

Gellir dangos tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus y gweithwyr hyn drwy gynllun datblygu personol sy'n cynnwys unrhyw rai o'r canlynol ag amserlen gyfatebol:

Dysgu a datblygu ffurfiol drwy gyrsiau hyfforddi (p'un ai'n rhai achredededig ai peidio). Lle bo'n briodol, dylai'r cyrsiau hyn fod yn unol â'r Maes Llafur Pwnc Arbenigol;

Mynychu cynadleddau;

Cyfleoedd a gynigir yn "fewnol" fel siaradwyr gwadd mewn cyfarfodydd tîm, cysgodi, a digwyddiadau dysgu tîm.

Dylai'r cynlluniau datblygu personol hyn gael eu cyflwyno fel atodiad i'r adroddiad blynyddol. Cyhoeddir dogfen dempled at y diben hwn maes o law.

**Grŵp 5**

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol sicrhau bod unrhyw gyflogai, sydd wrthi'n gweithio fel rheolwr gwasanaeth cymunedol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol, rheolwr lloches, arweinydd tîm neu mewn rôl arweiniol/lefel uwch gael ei hyfforddi i'r lefel briodol, fel yr amlinellir ar gyfer grŵp 5 o'r Fframwaith (gweler prif ganllawiau'r Fframwaith).

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol sicrhau bod unrhyw gyflogai, a gaiff ei recriwtio i weithio fel rheolwr gwasanaeth cymunedol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol, rheolwr lloches, arweinydd tîm neu mewn rôl arweiniol/lefel uwch gael ei hyfforddi ar gwrs priodol o fewn 12 mis i ddechrau ei gyflogaeth.

**Y maes llafur pwnc arbenigol**

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol sicrhau bod yr holl hyfforddiant a gynigir gan eu sefydliad, sy'n ymwneud ag unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol yn cyflawni deilliannau dysgu uned berthnasol y maes llafur pwnc arbenigol.


Mae'n ofynnol i Awdurdodau Perthnasol sicrhau bod yr holl hyfforddiant a gyflawnir gan eu cyflogeion, ar unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol yn cyflawni deilliannau dysgu'r uned berthnasol o fewn y maes llafur pwnc arbenigol.

## 5. Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

*Hwylusydd grŵp: "Beth mae angen i weithwyr proffesiynol ei wybod neu ei wneud yn well?"*

*Defnyddiwr gwasanaeth: "Popeth. Gofal, ymwybyddiaeth, addysg, bod yn ymwybodol o ba sefydliadau sydd ar gael, peidio â barnu, gwrando, gweithio amlasiantaethol, adnoddau, dewis rhywedd, diogelwch, ymddiriedaeth, cymorth i ddioddefwyr, credu, deall"[10].*

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynnwys chwe grŵp a maes llafur pwnc arbenigol. Er bod rhywfaint o ddatblygiad o fewn y Fframwaith, ar y cyfan mae pob rhan ohono yn ymwneud â grŵp penodol o broffesiynau a fydd, yn dilyn hyfforddiant, yn rhan o weithlu sy'n gweithio tuag at yr un nod: gwella'r ymateb i'r rhai sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.




[10] Sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod sesiwn ymgynghori defnyddwyr gwasanaeth ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

Rhoddir amlinelliad o'r gynulleidfa darged, cynnwys, deilliannau dysgu, cymwyseddau dysgwyr a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y dylid ymdrin â hwy ar gyfer pob grŵp o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn y ddogfen hon.

Mae dwy ran i'r Fframwaith yn y bôn:

1) Hyfforddiant cyson wedi'i ledaenu'n gymesur i'r awdurdodau perthnasol er mwyn gwella dealltwriaeth sylfaenol y gweithlu a, thrwy hynny, yr ymateb i unrhyw un sy'n profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.


Cysoni'r hyfforddiant arbenigol presennol er mwyn proffesiynoli'r sector arbenigol ymhellach, gwella cysondeb yr hyfforddiant mewn pynciau arbenigol ar lefel genedlaethol a gosod gofynion craidd ar gyfer gwasanaethau arbenigol (Grwpiau 4 a 5).

Mae'r cynnwys a roddir i grwpiau 1, 2 a 3 o'r Fframwaith yn adeiladu ar yr hyn a roddwyd i grwpiau blaenorol, h.y. dylai'r rheini yng ngrŵp 2 fodloni gofynion hyfforddi grŵp 1 ac fel rheol bydd disgwyl i'r rheini yng ngrŵp 3 gyflawni deilliannau hyfforddi grŵp 2.

Gyda'i gilydd, bydd y grwpiau hyn yn gallu adnabod trais a cham-drin a darparu gwell cymorth i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Grwpiau 4 a 5 o'r Fframwaith ond yn cynnwys y rhai sy'n arbenigo mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu feysydd pwnc arbenigol.

Mae Grŵp 6 yn cynnwys arweinyddiaeth awdurdodau perthnasol i gefnogi'r gwaith o wella'r ymateb sefydliadol i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, naill ai fel aelodau o'r gweithlu neu ddefnyddwyr gwasanaeth.



## Cynulleidfa

Mae'r Fframwaith, a'r canllawiau a geir yn y ddogfen hon, wedi'u hanelu'n bennaf at yr Awdurdodau Perthnasol a enwir yn adran 14 o'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, h.y. Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn annog pob sefydliad sy'n rhyngweithio â'r rhai sy'n wynebu risg o brofi neu sydd yn profi trais a cham-drin i ymwneud â'r Fframwaith, a all hefyd gael budd o'r canllawiau a roddir yn y ddogfen hon.

## Cefnogi camau gweithredu lleol

Nod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yw creu dull o ymdrin â hyfforddiant ar y materion hyn sy'n gyson ac yn sicrhau ansawdd. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r fframwaith yn cynnwys camau canolog a lleol sy'n cynnig safonau cyflenwi cenedlaethol ochr yn ochr â chamau gweithredu lleol hyblyg. Crynhoir y dulliau cyflenwi hyn isod:

## Cyflenwi lleol

- **Dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol**

Dylai dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol gael ei lunio'n syth cyn drafftio'r cynllun hyfforddi. Dylai'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi ystyried y gofynion hyfforddi fel y'u hamlinellir ym mhob grŵp o'r Fframwaith hwn a'u mapio yn erbyn unrhyw hyfforddiant presennol a gynigir yn lleol. Dylai'r asesiad o anghenion hyfforddi hefyd amlinellu nifer y gweithwyr proffesiynol sydd angen hyfforddiant.

Os mai dim ond rhai o'r deilliannau dysgu ar gyfer pob grŵp a gyflawnir gan hyfforddiant presennol, dylai'r cyrsiau hyn gael eu datblygu er mwyn bodloni'r gofynion yn llawn. Os nodir hyfforddiant presennol sy'n bodloni'r gofynion yn llawn, dylai'r asesiad o anghenion hyfforddi nodi cyrhaeddiad yr hyfforddiant hwnnw a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu'r cynllun hyfforddi.

Dylai unrhyw un a gafodd ei hyfforddi ar gwrs dros ddwy flynedd yn ôl gael cynnig hyfforddiant drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol er mwyn sicrhau bod "Gofyn a Gweithredu" yn ysgogi drwy weithwyr proffesiynol hysbys sy'n deall yr achos dros newid.

Wrth iddynt ddod i law, dylai'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi hefyd gael ei lywio gan yr asesiad o anghenion gofal a chymorth yn yr ardal (yr asesiad poblogaeth) o dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau poblogaeth) (Cymru) 2015 a'r asesiad ehangach o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal (yr asesiad o lesiant lleol) fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodir na fydd y rhain ar gael ar gamau cynnar gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

- **Cynlluniau hyfforddi**

Dylai'r cynllun hyfforddi gael ei ddatblygu yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi ac amlinelliad o'r ffordd y bydd pob maes yn gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Dylai'r cynllun hwn ddangos sut y caiff y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ei weithredu'n lleol tra'n sicrhau bod nodau strategol lleol ac arfer da yn cael eu hystyried a bod gweithgareddau hyfforddi sy'n bodoli eisoes yn cael eu cyflwyno er mwyn bodloni gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Dylai'r cynllun hyfforddi lleol gael ei oruchwylio a'i fonitro gan grŵp llywio. I strwythurau lleol presennol y byddai grŵp o'r fath yn perthyn orau er mwyn sicrhau bod system lywodraethu briodol ar waith a byddai'n enghraifft o bartneriaeth weithredol a nodir yn y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drim Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar Gydweithredu Amlasiantaethol effeithiol. O ran trefniadau llywodraethu cyffredinol, dylai'r grŵp llywio fwydo i mewn i'r bwrdd strategol sydd ei angen ar y canllawiau Cydweithredu Amlasiantaethol. Lle y defnyddir Bwrdd presennol at y diben hwn, mae'n debygol mai Byrddau Diogelu fydd y partneriaethau llywodraethu mwyaf addas am eu bod yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr mewn meysydd perthnasol ac yn cynnig cyfle i gysoni'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn gadarn â gofynion hyfforddi eraill o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Lle mae gan awdurdodau perthnasol Fyrddau Diogelu ar wahân ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed, dylai'r gwaith o fonitro'r broses o weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn lleol gael ei drosglwyddo i un o'r rhain ond dylid ystyried ei fod yn berthnasol i'r ddau. Dylai byrddau gyfathrebu â'i gilydd a rhannu adroddiadau.

Maes o law, dylai'r cynllun hyfforddi fod yn rhan annatod o'r strategaeth leol a gaiff ei pharatoi ar y cyd gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan adran 5 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Wrth ddatblygu eu cynlluniau hyfforddi lleol, dylai awdurdodau perthnasol gynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Manylir ar gynlluniau hyfforddi lleol lle maent yn destun cyngor a chraffu defnyddwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn hynod bwysig o ran blaenoriaethu a chynllunio hyfforddiant lleol.

Tra caiff adnoddau canolog ar gyfer pob gweithgaredd hyfforddi eu darparu ar wahân, bydd cylchlythyr grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn gofyn am ystyried hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015), a'i integreiddio'n lleol, o 2016-17.

- **Consortia hyfforddi rhanbarthol**

Caiff grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol eu hyfforddi drwy gonsortia hyfforddi rhanbarthol. Dylai consortia hyfforddi rhanbarthol gael eu sefydlu yn erbyn ôl-troed rhanbarthol y Bwrdd Iechyd Lleol.

Bydd y consortia yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a enwebir o'r Bwrdd Iechyd Lleol, pob Awdurdod Lleol a'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol.  Dylai gwasanaethau arbenigol lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf hefyd gael eu gwahodd i gymryd rhan yn y consortia rhanbarthol er mwyn diwallu anghenion lleol a nodwyd a defnyddio arbenigedd lleol.

Er mwyn sicrhau bod y rheini yn y consortia hyfforddi rhanbarthol yn cyflenwi hyfforddiant yn ddigon rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i feddu ar y wybodaeth ofynnol a chynnal lefel o hyder, argymhellir bod aelodau'r consortia hyfforddi yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau craidd er mwyn hyfforddi grŵp 2 rhwng tair a chwe gwaith y flwyddyn a bod y rhai a hyfforddwyd i hyfforddi grŵp 3 yn cael eu rhyddhau i gyflenwi hyfforddiant bum gwaith y flwyddyn.

Rhoddir rhagor o ganllawiau ar rôl y consortia rhanbarthol yn adran 7.

- **Gweithredu ar sail deilliannau dysgu**

Caiff deilliannau dysgu eu hamlinellu'n glir ar gyfer pob grŵp o'r Fframwaith a dylai awdurdodau weithio tuag at gyflawni'r deilliannau hyn drwy unrhyw gynnyrch hyfforddi neu ddatblygu a ddefnyddir ar gyfer y grŵp hwn.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys cyfres achrededig o unedau sy'n ffurfio rhan gyntaf maes llafur o bynciau arbenigol sy'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu i lywio hyfforddiant lleol.

**Cyflenwi canolog a ariennir**

Ariennir rhaglen hyfforddi genedlaethol bellgyrhaeddol er mwyn sicrhau bod carfan o ymarferwyr sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi hyfforddiant rhanbarthol sy'n bodloni gofynion grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ymhob rhanbarth yng Nghymru.  Mae hyn yn cefnogi blaenoriaethau rhanbarthol a gweithredu hyblyg o fewn seilwaith lleol a phenodol i sefydliad.

- **Darparu cynhyrchion hyfforddi**

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, wedi datblygu cynhyrchion hyfforddi sydd ar gael yn genedlaethol er mwyn cyflawni deilliannau grwpiau penodol o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Bydd pecyn eDdysgu 45 munud, sy'n seiliedig ar ddeilliannau grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ar gael ar borth Learning@NHSWales ac Academi Cymru Gyfan, sydd ar gael i bob aelod o staff gwasanaeth cyhoeddus am ddim.

Mae'r Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth - cyfres o ffilmiau byr sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth strategol a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - ar gael ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru.  Mae'r ffilmiau hyn yn cyflawni deilliannau grŵp 6 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Amserlen**

Mae cam cynllunio camau gweithredu cychwynnol y fframwaith dros bum mlynedd. Tua diwedd y cyfnod hwn, caiff cyrhaeddiad cenedlaethol ac effeithiolrwydd eu hasesu a gwneir rhagor o waith cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol.

**Cysondeb â fframweithau a modelau dysgu eraill.**

Mae sawl fframwaith a model dysgu arall yn bodoli sy'n cynnig cyfleoedd i gysoni â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae'r rhain yn dueddol o fod yn gysylltiedig â diogelu ac fe'u crynhoir yma ac yn y tabl yn Atodiad 2 sy'n amlinellu cyfleoedd integreiddio posibl, a all gael eu harchwilio'n lleol. Mae rhagor o ganllawiau hefyd ar gael ar ymdrin â'r gorgyffwrdd rhwng y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a hyfforddiant presennol ar Ddiogelu Plant ar dudalen 45.

Os cymerir camau integreiddio o'r fath, mae'n bwysig bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol **nid yn unig** yn cael eu cyflwyno fel materion amddiffyn plant neu ddiogelu oedolion agored i niwed. Diben y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yw cydnabod bod y materion hyn yn faterion gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd a chyfiawnder cymdeithasol pwysig, sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru, gan gynnwys plant, pobl ifanc a phobl hŷn, fel materion sylfaenol.

Os ffafrir fframweithiau eraill i gyflawni elfennau o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac elfennau o fodelau dysgu eraill, rhaid i ddeilliannau dysgu'r ddau fframwaith gael eu nodi a'u cyflawni.

**Safeguarding Children and Young people: Roles and Competences for Healthcare Staff 2014 Intercollegiate document**.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu fframwaith cymhwysedd ar gyfer staff gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar gynyddu gallu proffesiynol i adnabod camdriniaeth plant a chymryd camau effeithiol fel y bo'n briodol. Mae'r cymwyseddau yn gyfuniad o sgiliau, gwybodaeth, agweddau a gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol.

Mae'r Fframwaith yn nodi pum lefel o gymhwysedd ac yn rhoi enghreifftiau o grwpiau sy'n perthyn i bob un ohonynt. Mae'r lefelau fel a ganlyn:

Lefel 1: Pob aelod o staff gan gynnwys rheolwyr anghlinigol a staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd
Lefel 2: Lefel ofynnol ar gyfer staff anghlinigol a chlinigol sy'n dod i rywfaint o gysylltiad â phlant a phobl ifanc a/neu rieni/gofalwyr
Lefel 3: Staff clinigol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni/gofalwyr ac a allai gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd a gwerthuso anghenion plentyn neu berson ifanc a gallu rhianta lle ceir pryderon diogelu/amddiffyn plant
Lefel 4: Gweithwyr proffesiynol penodol
Lefel 5: Gweithwyr proffesiynol penodol

**Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Cyngor Gofal Cymru: Fframwaith i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru**

Cyngor Gofal Cymru sy'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a sicrhau safonau uchel ymhob rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae sawl elfen o waith Cyngor Gofal Cymru yn cynnig opsiynau integreiddio neu gyflenwi ar gyfer agweddau ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. At hynny, gall y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn ardaloedd lleol, mewn perthynas â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â rôl y Cyngor Gofal, helpu i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y canllawiau hyn. Nodir rhai enghreifftiau posibl i'w hystyried yn lleol isod:

**Ymwybyddiaeth sylfaenol yn y Pecyn Hyfforddiant Diogelu**

Mae pecyn hyfforddi ar gael i'w ddefnyddio ymhob un o'r Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi gwybodaeth a chyfleoedd datblygu sylfaenol ym maes diogelu. Mae'r pecyn hyfforddi hwn ar gael i'w ddefnyddio wrth sefydlu gweithwyr gofal cymdeithasol Awdurdod Lleol, gweithwyr gofal cymdeithasol a gwirfoddolwyr mewn sefydliadau trydydd sector a sefydlu staff gofal cymdeithasol yn y sector gofal annibynnol yng Nghymru. Caiff yr adnodd hyfforddi hwn ei ddiwygio er mwyn cyfleu ymwybyddiaeth sylfaenol o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

**Cynllun Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**

Darperir grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol i awdurdodau lleol gynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol i feithrin sgiliau a gwybodaeth ymhellach. Dyfernir y grant ar sail gwaith cynllunio manwl gywir sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu. Awgrymir y dylai ardaloedd lleol gynnwys gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn eu cynlluniau ar gyfer Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau yr achubir ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth, y cyfyngir ar unrhyw ddyblygu ac y caiff dadansoddiad o anghenion hyfforddi a gynhaliwyd eisoes eu defnyddio.
Fel yr amlinellir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, bwriedir hefyd ddarparu adnoddau hyfforddi ar wahân er mwyn bodloni gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus**

Mae Cyngor Gofal Cymru yn datblygu Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol yng Nghymru. Y nodau cyffredinol yw gwella safon ymarfer gwaith cymdeithasol a chefnogi gweithwyr cymdeithasol wrth iddynt ddatblygu o fod newydd gymhwyso i fod yn weithwyr cymdeithasol profiadol sydd ar frig eu proffesiwn.

Mae'r Fframwaith hwn yn disgrifio'r trefniadau gofynnol ar gyfer addysg a dysgu proffesiynol parhaus gweithwyr cymdeithasol ar ôl iddynt gymhwyso'n gychwynnol. Mae gofynion grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn gyson â'r ethos a'r safonau a amlinellir yn y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol

Parhaus ac maent yn adlewyrchiad da o gyfeiriad a datblygiad presennol y gweithlu Gofal Cymdeithasol.

**Defnyddwyr gwasanaeth amrywiol ac ymylol**


Mae hyfforddiant o dan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys hyfforddiant ar brofiad o'r materion hyn gan unrhyw ddioddefwr posibl neu uniongyrchol. Fe'i cyflenwir mewn cyd-destun rhywedd a fydd yn cydnabod profiad anghymesur menywod a merched.

Cydnabyddir bod y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn wahanol lle mae'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[11]. Mae'n bwysig bod hyfforddiant yn cael ei gynnig yng Nghymru sy'n edrych ar y rhyng-gydberthynas rhwng y nodweddion gwarchodedig a'r profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd maes llafur pwnc arbenigol y Fframwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y nodweddion gwarchodedig a sut y gallant effeithio ar fod yn agored i niwed ac wynebu risg, cynyddu effaith cam-drin a gofyn am sgiliau a gwybodaeth ychwanegol gan y gweithiwr proffesiynol.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn glir na ddylai grwpiau ymylol na'r rheini ag anghenion amrywiol gael eu hystyried yn ychwanegiad i unrhyw hyfforddiant. Rhaid i'r gallu i ymateb i anghenion yr unigolion hyn a'u hystyried fod yn rhan annatod o set sgiliau timau gwasanaeth cyhoeddus ac, fel y cyfryw, bydd yr hyn sydd ar gael i bob grŵp yn cydblethu â materion amrywiaeth ac yn ystyried amrywiaeth o anghenion unigol wrth ei gyflwyno.

[11] Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

## Deilliannau



## Deilliannau dysgu a chymwyseddau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

| **Deilliannau dysgu arfaethedig: Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant hwn bydd cyfranogwyr yn:** |
|---|
| **Grwp 1 Nod hyfforddi**<br>Bydd gan gyfranogwyr ymwybyddiaeth well o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol<br><br>**DD1.1: Deall beth yw** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr ddisgrifio mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol |
| **DD1.2: Adnabod arwyddion** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol<br><br>Gall y dysgwr adnabod y mathau o ymddygiad sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol |
| **DD1.3: Deall eu rôl yn trechu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**<br><br>Mae'r dysgwr yn gwybod beth yw rhif y llinell gymorth ac mae'n ymwybodol o wefan Byw Heb Ofn fel adnodd proffesiynol (yn ogystal ag fel adnodd i ddefnyddwyr gwasanaeth). |
| **Grŵp 2 Nod hyfforddi**<br>Grŵp 1 + Adnabod arwyddion a symptomau, ymateb yn briodol i ddatgeliadau digymell, gofyn cwestiynau priodol ac ymateb.<br><br>**DD2.1: Adnabod arwyddion a symptomau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**<br><br>Gall y dysgwr adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr ddisgrifio sut y gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio ar unrhyw un ac nad yw eu profi yn gysylltiedig ag unrhyw ddiwylliant, crefydd na statws economaidd-gymdeithasol penodol yn arbennig.<br><br>**DD2.2: Deall diben ymholi wedi'i dargedu a dangos gallu i wneud hynny**<br><br>Gall y dysgwr roi'r rheswm dros ymholi wedi'i dargedu a'i rôl yn y gwaith hwn.<br><br>Gyda diogelwch cleientiaid yn brif bryder; gall y dysgwr ofyn cwestiynau i'r rheini sy'n dangos arwyddion a symptomau sy'n ymwneud â'u profiad posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr ymateb i'r cleient yn briodol ac mae'n deall ei gyfrifoldebau posibl os caiff "ddatgeliad cyntaf".<br><br>Gall y dysgwr ddisgrifio anghenion amrywiol a chymhleth ychwanegol a ystyrir ganddo wrth ofyn cwestiynau.<br><br>**DD2.3 Dangos gwybodaeth o ddiogelu data a'r ddyletswydd o ran cyfrinachedd**<br><br>Gall y dysgwr nodi deddfwriaeth rhannu gwybodaeth<br><br>Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o'i ddyletswyddau/ ystyriaethau moesegol mewn perthynas â chyfrinachedd a rhannu data. |

| |
|---|
| Mae'r dysgwr yn dangos sgiliau cadw cofnodion arfer da, cyfreithiol. |
| **DD2.4: Deall diben nodi risg mewn perthynas â rhai mathau o** drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol[12]<br><br>Mae'r dysgwr yn deall ystyr risg mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr ddefnyddio Rhestr Wirio Nodi Risg y cytunwyd arni'n genedlaethol os oes angen.<br><br>**DD2.5: Gallu gweithredu llwybr gofal ymholi wedi'i dargedu**<br><br>Mae'r dysgwr yn ymwybodol o'r dewisiadau gwasanaeth, opsiynau atgyfeirio a ffora amlasiantaethol sydd ar gael i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<br><br>Gall y dysgwr egluro'r rhain i'w gleientiaid a hwyluso atgyfeiriadau yn seiliedig ar ddewis y cleient.<br><br>Pan fo'r cleient neu'r unigolyn cysylltiedig yn wynebu risg o niwed difrifol gall y dysgwr ddangos y camau a gymerir ganddo i ddiogelu'r rhai sy'n wynebu risg, gan gynnwys plant. |
| **Grŵp 1 a 2 Nod hyfforddi**<br>Grŵp 1 a 2 Ystyried y risg sy'n wynebu'r cleient, cymryd camau priodol i'w ddiogelu yn syth, chwarae rhan briodol mewn gwaith amlasiantaethol.<br><br>**DD3.1 Gallu ystyried trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng nghyd-destun y teulu cyfan**<br><br>Bydd gan y dysgwr wybodaeth o'r cysylltiad rhwng trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r risg i blant.<br><br>Bydd gan y dysgwr wybodaeth o nodweddion cyffredin tramgwyddwyr trais a chamdriniaeth o fewn perthynas agos. |
| **DD3.2 Gallu asesu risg mewn achosion priodol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**<br><br>Bydd y dysgwr yn gallu ystyried risgiau a wynebir gan y dioddefwr, a berir gan y tramgwyddwr ac a brofir gan blant;<br><br>Cymryd camau priodol i leihau'r risgiau hyn a bodloni gofynion diogelwch uniongyrchol aelodau o'r teulu sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol naill ai drwy gamau gweithredu neu atgyfeiriadau. |

[12] Nid yw nodi risg yn un o ofynion "Gofyn a Gweithredu". Bydd ardaloedd lleol yn pennu p'un a gaiff y gwaith hwn ei wneud yn fewnol neu p'un a ddefnyddir llwybrau gofal at y diben hwn. Hyfforddir staff perthnasol i hwyluso'r naill ddull neu'r llall.

| |
|---|
| **Grŵp 3 Nod hyfforddi**<br><br>**DD3.3 Dangos gallu i gefnogi cydweithwyr mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**<br><br>Bydd y dysgwr yn gallu dangos proses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rhannu data.<br><br>Bydd y dysgwr yn gallu dangos dealltwriaeth o ffora gweithredol amlasiantaethol lleol a rôl ei sefydliad yn hynny o beth. |
| **Grŵp 4 Nod hyfforddi**<br>Cynnig ymyriadau arbenigol, penodol i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'u plant.<br><br>Rhaglen achrededig, benodol â chorff achredu perthnasol ar gyfer rôl benodol. |
| **Grŵp 5 Nod hyfforddi**<br><br>Rheoli a strategaeth; darparwyr arbenigol<br><br>**DD5.1 Deall y rhinweddau arwain a rheoli sydd eu hangen ar y rheini sy'n darparu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**<br><br>**DD5.2 Deall yr Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig a gweithio'n effeithiol o'i fewn.** |
| **DD5.3 Dangos gallu i gynllunio cyfeiriad strategol y gwasanaeth.** |
| **DD5.4 Deall pwysigrwydd monitro a gwerthuso mewn perthynas â darparu gwasanaethau i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.** |
| **Grŵp 6 Nod hyfforddi**<br>Cynllun ymgysylltu strategol ym maes arwain Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r gweithlu. Mae angen creu diwylliannau lle caiff gwaith y grwpiau sy'n weddill yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ei gydnabod yn hanfodol i waith adrannau gwasanaethau cyhoeddus perthnasol a'r gweithle. |

## 6. Grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

*"Cymerodd gryn dipyn i agor i fyny. Roedd fy meddyliau i ar chwâl, roeddwn i'n credu fy mod i'n wallgof"*

*“Mae gormod o ofn arnoch chi i ddweud sut rydych chi'n teimlo"*

*“Does neb yn eich credu chi”*

Diben grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yw sicrhau bod gan holl gyflogeion yr awdurdodau perthnasol ymwybyddiaeth sylfaenol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd yn targedu staff gwasanaeth cyhoeddus fel yr amlinellir isod. Nid yw hyfforddiant grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn anelu at newid ymarfer ac nid oes mwy o faich ffurfiol na chyfrifoldeb ar y dysgwr unigol. Yn hytrach, y gobaith yw y bydd yr hyfforddiant hwn yn herio agweddau ac yn codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn.

**Nod**

Bydd gan gyfranogwyr ymwybyddiaeth well o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cynulleidfa**

Bwriedir i Grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gyrraedd y gynulleidfa ehangaf, gan gynnwys o leiaf 284,000[13] o gyflogeion gwasanaeth cyhoeddus.

**Cyflenwi**

Bydd pecyn eDdysgu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cyflawni deilliannau dysgu grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac argymhellir bod y pecyn hwn yn cael ei ddefnyddio gan yr awdurdodau perthnasol. Mae cwblhau'r e-ddysgu hwn yn bodloni gofynion grŵp 1 (fel yr amlinellir uchod) heb fynd i gostau ychwanegol (y tu hwnt i amser staff) i'r awdurdodau perthnasol.

Cydnabyddir, mewn rhai achosion, nad oes modd cynnig e-ddysgu oherwydd seilwaith TG y sefydliad. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio gweithlyfr sy'n adlewyrchu'r e-Ddysgu ond nad yw'n gofyn am ddefnydd parhaus o gyfrifiadur. Gellir bodloni gofynion grŵp 1 mewn ffyrdd amgen eraill (fel hyfforddiant wyneb yn wyneb) ond yr awdurdod perthnasol fydd yn gyfrifol am dalu am hyn.

Mae'r pecyn eDdysgu am ddim ac ar gael ar Systemau Rheoli Dysgwyr a ddefnyddir fwyaf gan y gynulleidfa darged. Ymhlith y rhain mae Learning@NHSWales ac Academi Cymru Gyfan.

Gan staff Iechyd ac Awdurdodau Lleol y defnyddir y safleoedd hyn fwyaf ond maent hefyd ar gael i unrhyw un yng Nghymru sydd am gwblhau'r eDdysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cynifer o bobl â phosibl i gwblhau'r eDdysgu. Mae'r safleoedd hefyd yn cynnig cyfleoedd adrodd a fydd yn galluogi monitro cyfraddau cwblhau yn lleol ac yn genedlaethol.

[13] Mae hyn yn cyfateb i 85% o gyflogeion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac nid yw'n cynnwys y DVLA, CThEM, y Weinyddiaeth Amddiffyn na Bws Caerdydd.

Bydd yr eDdysgu ar gael yn ddwyieithog ac mewn amrywiaeth o fformatau eraill er mwyn lliniaru risgiau mynediad technolegol a chynyddu hygyrchedd i grŵp amrywiol o ddysgwyr.

Ategir pecyn eDdysgu Llywodraeth Cymru gan gyfres o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sy'n tynnu sylw at arwyddion a symptomau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cyfres o ddeunyddiau adnodd hefyd ar gael i atgyfnerthu a chefnogi negeseuon yr eDdysgu. Rhoddir dolen uniongyrchol i wefan Byw Heb Ofn yn y pecyn. Bydd y ddolen yn galluogi'r dysgwr i gael gafael ar adnoddau dysgu pellach os yw'n dymuno gwneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys adnoddau dysgu ychwanegol ar gyfer pob un o'r pynciau dan sylw, ffilmiau ychwanegol ac adnoddau ymarferol.

**Deilliannau**

Dylai unrhyw hyfforddiant i gyflawni deilliannau dysgu grŵp 1 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gael ei werthuso yn seiliedig ar gynnydd yng ngwybodaeth y dysgwr, hyder y dysgwr i adnabod arwyddion trais a cham-drin posibl a chyfeirio cydweithwyr, ffrindiau a theulu at wasanaethau arbenigol.

**Achredu**

Nid oes rhaid achredu hyfforddiant grŵp 1 o'r Fframwaith. Fodd bynnag, yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol o hyfforddiant arbenigol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru[14], dylai hyfforddiant grŵp 1 gydymffurfio â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol canlynol. At hynny, rhaid cymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a roddir i grŵp 1 yn cydymffurfio â DPP ar gyfer amrywiaeth o broffesiynau.

| Rhif Adnabod SGC | Teitl SGC |
|---|---|
| **AG4** | Adnabod ac ymateb i achosion a amheuir o gam-drin pobl o grwpiau agored i niwed |
| **BH202** | Herio agweddau'r cyhoedd at drais domestig a cham-drin |
| **GK504** | Rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol |

**Cymorth parhaus**

Mae adborth seiliedig ar ymarfer ar sail gweithredu'r e-Ddysgu ar gam cynnar wedi dangos y gall y pecyn arwain at nodi profiadau personol o gam-drin a cheisiadau am help a chyngor gan reolwyr. Er mwyn helpu rheolwyr i helpu staff sydd angen help

[14] Adroddiad terfynol Agored Cymru: The co-ordination of practical, expert-led advice to the Welsh Government on the Content Areas of Part of the Group 4 National Training Framework for Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence.

ychwanegol ar ôl cwblhau'r e-Ddysgu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol i reolwyr sydd ar gael ar wefan Byw Heb Ofn.[15]

Darperir y canllaw hwn er mwyn helpu rheolwyr llinell i wneud y canlynol:

- eu helpu i gyflwyno'r e-ddysgu i staff;
- ymdrin ag unrhyw bryderon sydd ganddynt hwy neu eu staff ynglŷn â chynnwys ac effaith yr e-ddysgu;
- cynnig cymorth a chefnogaeth i gydweithwyr sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

[15] http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/elearning-guidance-for-line-managers?skip=1&lang=cy

## 7. Grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

*“Hyfforddiant sylfaenol yw hyn. Brawddeg yn unig yw [gofyn y cwestiwn]”*

*"Does dim angen y tabledi arnoch chi, rhywun i siarad ag ef sydd ei angen"*

Mae grŵp 2 yn disgrifio'r grŵp o weithwyr proffesiynol a wnaiff "Gofyn a Gweithredu". Mae'r rhan hon o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn amlinellu'r deilliannau dysgu a'r cymwyseddau sy'n cefnogi egwyddor "Gofyn a Gweithredu".

Dim ond hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi a'u hardystio gan Lywodraeth Cymru a ddylai ddarparu hyfforddiant grŵp 2 a dylai hyn gynnwys cwrs hyfforddi cyfan Gofyn a Gweithredu a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn.

Mae "Gofyn a Gweithredu" yn ddull ymholi wedi'i dargedu yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais ar sail rhywedd. Cyhoeddir rhagor o ganllawiau manwl ar "Gofyn a Gweithredu" ar wahân gan Lywodraeth Cymru a fydd yn disgrifio'r dull gweithredu'n fanwl ac yn rhoi cyngor ar ei weithredu. Bydd hefyd yn cyfeirio at y canllawiau hyn **sy'n canolbwyntio'n benodol ar elfen hyfforddi "Gofyn a Gweithredu".**

Mae gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi datgeliadau gan ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol ac atgyfnerthu'r gwasanaethau a gânt. Mae angen dull mwy cyson o adnabod dioddefwyr ac atgyfeirio'n briodol ledled Cymru.

Prif amcan "Gofyn a Gweithredu" yw galluogi gweithwyr proffesiynol perthnasol i "ofyn" i ddioddefwyr posibl a ydynt yn profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais ar sail rhywedd mewn rhai amgylchiadau a "gweithredu" fel bod y dioddefaint a'r niwed a achosir gan y trais a'r cam-drin yn cael eu lleihau.

Mae'r term ymholi wedi'i dargedu yn disgrifio'r broses o adnabod arwyddion o'r ymddygiadau hyn, gan gynnwys symptomau meddygol, arwyddion ymddygiadol neu emosiynol, ciwiau gwybodaeth a chydnabod y lleoliadau proffesiynol a ddefnyddir.

### Nod

Bydd gan y cyfranogwyr y sgiliau, yr hyder a'r gallu i "Ofyn a Gweithredu".

### Cynulleidfa

Mae grŵp 2 yn cynnwys y staff gwasanaeth cyhoeddus sydd fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â'r rhai sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais ar sail rhywedd fel rhan o'u rolau (gweler Atodiad 1 am ragor o ganllawiau).

Er mwyn asesu p'un a yw rôl broffesiynol yn addas o ran hyfforddi grŵp 2 o'r Fframwaith dylid cymhwyso'r meini prawf canlynol:

Mae'r gweithiwr proffesiynol:

- mewn rôl gyhoeddus ac yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd;

- mewn rôl lle mae profiad ei grŵp cleientiaid o'r mathau hyn o drais a cham-drin yn cymhlethu ac yn effeithio ar natur ymgysylltu'r cleientiaid â'r gwasanaeth a gynigir yn y rôl honno.

Dylid rhoi blaenoriaeth i hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â dioddefwyr posibl ac â theuluoedd fwyaf a dylai'r fath weithwyr proffesiynol gael eu dewis o blith yr holl awdurdodau perthnasol.

Mae ymchwil yn dod i'r amlwg sy'n dangos effaith a chyd-daro trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol â meysydd proffesiynol eraill yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, y defnydd o sylweddau ac addysg. [16] Mae'r ymchwil hon yn fan cychwyn defnyddiol i ranbarthau ddatblygu eu cynlluniau cyflenwi. Bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddi rhanbarthol hefyd yn helpu i nodi proffesiynau i'w blaenoriaethu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r grwpiau canlynol ar gyfer hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu". Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond dros gyfnod y cynllun cyflenwi cychwynnol pum mlynedd disgwylir i bob rhanbarth fod wedi hyfforddi gweithwyr proffesiynol i gyflawni'r meini prawf hyfforddiant yn y grwpiau hyn.

Lleoliadau mamolaeth ac ôl-enedigol
Gofal sylfaenol
Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys
Camddefnyddio sylweddau
Iechyd meddwl
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)[17]
Gwaith Cymdeithasol
Addysg
Tai, Opsiynau tai a Digartrefedd
Timau Troseddau Ieuenctid
Gwasanaethau Tân ac Achub
Parafeddygon, technegwyr meddygol achosion brys a thimau gofal dybryd
CAFCASS Cymru[18]

### Cyflenwi

Cyflenwir grŵp 2 o'r Fframwaith drwy fodel dosbarthu rhanbarthol; caiff gweithwyr lleol proffesiynol, cynrychiolwyr rhanbarthau, gwybodaeth arbenigol a chynulleidfaoedd eu hyfforddi i hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill yn eu rhanbarth i "Ofyn a Gweithredu" gan ddefnyddio pecyn hyfforddi Llywodraeth Cymru.

[16] Amlinellir crynodeb o'r ymchwil hon yng nghanllawiau statudol "Gofyn a Gweithredu" Llywodraeth Cymru
[17] [18] Nododd sawl defnyddiwr gwasanaeth fod CAFCASS yn sefydliad lle'r oedd angen hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ni chafodd y sefydliad hwn ei gydnabod yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus. At hynny, er i un sefydliad a ymatebodd i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus gyfeirio at anghenion hyfforddi Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn ei ymateb, codwyd hyn yn amlach gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Rheolir y broses o ddewis consortia Hyfforddiant Rhanbarthol gan gydgysylltwyr cam-drin domestig neu gynghorwyr rhanbarthol a ariennir gan Lywodraeth Cymru a dylai fod yn seiliedig ar y canlynol:

1. Mae gan y darpar hyfforddwr wybodaeth arbenigol o gam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod a gafwyd drwy ymarfer yn y maes hwn; neu
2. Mae gan y darpar hyfforddwr wybodaeth ymarferol gref o faes gwaith un o'r cynulleidfaoedd â blaenoriaeth  bydd yn hyrwyddo'r dull gweithredu yn y proffesiwn hwnnw;
3. Mae gan y darpar hyfforddwr brofiad o hyfforddi.

Dylai grŵp 2 o'r Fframwaith gael ei hyfforddi gan ddau hyfforddwr; un sy'n cynrychioli pwynt un uchod a'r llall sy'n cynrychioli'r ail bwynt.  Dylai fod gan o leiaf un o'r ddau brofiad o hyfforddi.

Bydd yr hyfforddwyr hyfforddedig hyn yn ffurfio consortia hyfforddi rhanbarthol.  Bydd y consortia hyn yn rhan o fodel cyflenwi grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a bydd yn galluogi rhanbarthau a sefydliadau i hyfforddi gweithwyr proffesiynol lleol mewn modd hyblyg.

Gofynnir i'r consortia (a arweinir gan gynghorwyr rhanbarthol neu gydgysylltwyr cam-drin domestig) gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau hyfforddi. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys cynllun pum mlynedd i hyfforddi proffesiynau a flaenoriaethwyd yn lleol i "Ofyn a Gweithredu".

Mae model y consortia hyfforddi rhanbarthol yn cynnig cyfle i gynnwys arbenigwyr lleol wrth hyfforddi "Gofyn a Gweithredu", rheoli anghenion hyfforddi lleol yn hyblyg, cynnwys sefydliadau nas enwir yn awdurdodau perthnasol fel y bo'n briodol a darparu hyfforddiant gloywi rheolaidd.  Dylai'r broses o greu consortia hyfforddi rhanbarthol fod yn gyson â'r blaenoriaethau blynyddol a amlinellir yn y cynllun hyfforddi.[19]

Mae'n debygol mai consortia hyfforddi rhanbarthol fydd y dull mwyaf effeithiol o gyrraedd staff Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol.  Fodd bynnag, efallai na fyddant mor effeithiol i Awdurdodau Tân ac Achub neu rai o Ymddiriedolaethau'r GIG fel Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Felindre neu Wasanaeth Gwaed Cymru.  Nid yw'r sefydliadau hyn bob amser yn perthyn yn daclus i unrhyw ôl-troed rhanbarthol ac, yn benodol, yn achos Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, mae ganddi brosesau hyfforddi staff a gaiff eu cynllunio'n drwyadl flynyddoedd ymlaen llaw ac nid ydynt yn hyblyg.

Yn achos sefydliadau o'r fath, fe'u hanogir i hyfforddi staff drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol (gall fod yn briodol cysylltu â sawl rhanbarth at y diben hwn) a defnyddio'r staff hyfforddedig hyn i hyfforddi eu staff perthnasol yng ngrwpiau 2 a 3 yn eu cynlluniau dysgu a datblygu eu hunain.  Dylai'r trefniadau hyn gael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau hyfforddi lleol neu ranbarthol.  Lle nad yw hyn yn bosibl, oherwydd cyfyngiadau daearyddol neu strwythurol, dylai'r sefydliad geisio

[19] Ni ddylid drysu rhwng y consortia hyfforddi rhanbarthol a grwpiau hyfforddi lleol a sefydlwyd at ddibenion heblaw cyflenwi grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

cyngor pellach gan Lywodraeth Cymru a wnaiff ystyried a fyddai hyfforddiant sy'n benodol i'r sefydliad yn fwy addas.

Caiff yr ôl-troed rhanbarthol a nodir yn y canllawiau o dan adran 15 mewn perthynas â grŵp 2 ei ailystyried yn dilyn unrhyw ddiwygiadau i lywodraeth leol a darperir canllawiau pellach.

**Deilliannau**

Darperir pecyn gwerthuso fel rhan o'r adnoddau a'r deunyddiau a roddir i'r consortia hyfforddi rhanbarthol, er mwyn casglu safbwyntiau cyfranogwyr cyn ac ar ôl hyfforddiant. Dylai crynodeb o'r adborth hwn fod yn rhan o'r adroddiad blynyddol. Caiff hyfforddiant grŵp 2 ei werthuso yn erbyn y mesurau canlynol:

- Meini prawf ymateb: sut y gwnaeth yr hyfforddiant effeithio ar y cyfranogwyr ac unrhyw newid mewn agwedd yn dilyn hynny.

- Meini prawf dysgu: sut roedd yr hyfforddiant yn mesur yn erbyn y deilliannau dysgu. Dylai hyn ystyried canfyddiad y dysgwr o wybodaeth, ei hyder a'r bwriad i weithredu.

- Meini prawf ymddygiadol: effaith yr hyfforddiant ar berfformiad gwirioneddol. Gall hyn gynnwys mesur dilynol.

- Meini prawf deilliannau: bydd hyn yn cynnwys ystyried effaith yr hyfforddiant yn y tymor hwy, pa mor ddefnyddiol yw yn nhyb yr awdurdodau perthnasol a pha mor berthnasol yr ystyrir effaith yr hyfforddiant ar newid ymarfer. Ymdrinnir â hyn mewn gwerthusiadau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r mesurau a ddisgrifir uchod, mesurir deilliannau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r broses "Gofyn a Gweithredu" drwy werthusiad annibynnol o'r dull gweithredu. Bydd y gwerthusiad hwn yn anelu at ystyried y canlynol:

- cyfraddau adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cyfraddau atgyfeirio i wasanaethau arbenigol;
- cam-drin yn dod i ben;
- cyfraddau ailerledigaeth lleol;
- ymyrraeth gynharach.

**Achredu**

Caiff Hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr i uwchsgilio'r consortia hyfforddi rhanbarthol ei achredu. Fodd bynnag, nid felly'r hyfforddiant a gyflenwir drwy'r consortia. Mae maint y gynulleidfa a hyfforddir ar y lefel hon yn gwahardd achredu unigol. Fodd bynnag, yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol o hyfforddiant arbenigol ar

drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru[20], bydd yn cydymffurfio â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol canlynol.

| Rhif Adnabod SGC | Teitl SGC |
|---|---|
| **AG4** | Adnabod ac ymateb i achosion a amheuir o gam-drin pobl o grwpiau agored i niwed |
| **BI101** | Cyfathrebu ac ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig |
| **GK101** | Rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig |
| **GK401** | Ymdrin â'r sawl sy'n ffonio mewn modd sensitif |
| **GK402** | Pennu gofynion y sawl sy'n ffonio |
| **GK502** | Cyfathrebu ac ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol |
| **GK504** | Rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol |

**Cymorth parhaus**

Cydnabyddir y bydd adnoddau awdurdodau perthnasol yn herio argaeledd staff i dderbyn hyfforddiant gloywi ffurfiol ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn yr un ffordd â'r hyfforddiant cychwynnol (hyfforddiant yn yr ystafell).

Gellir bodloni'r gofyniad i ddarparu hyfforddiant gloywi drwy gynnig dysgu cyfunol ac ar-lein a bydd deunyddiau ar gael maes o law i fodloni'r gofyniad hwn.

[20] Adroddiad terfynol Agored Cymru: The co-ordination of practical, expert-led advice to the Welsh Government on the Content Areas of Part of the Group 4 National Training Framework for Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence.

## 8. Grŵp 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

*"Edrych ar y broblem go iawn. Mynd gam ymhellach!"*

*"Edrych ar y teulu cyfan - gwneud asesiad cywir"*

*"Dy'n nhw ddim yn deall yr effaith ar blant, does neb yn gwrando ar lais y plentyn, mae angen gwrando arnyn nhw hefyd"*

Mae grŵp 3 o'r Fframwaith yn disgrifio'r rhai sy'n gweithio'n agos gyda theuluoedd sy'n profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu rôl bresennol (ond nad ydynt yn arbenigo yn y maes hwn) a'r rhai sy'n cyflawni rôl hyrwyddo yn eu sefydliad (gweler Atodiad 4 am ddiffiniad o'r rôl hon).

Mae'n rhan hon o'r Fframwaith yn amlinellu'r deilliannau dysgu a'r cymwyseddau y mae'n rhaid eu cyflawni drwy hyfforddiant at y dibenion canlynol:

- sicrhau, ym mhob un o'r awdurdodau perthnasol, fod cyfran o'r gweithwyr proffesiynol sydd wrthi'n gweithio gyda'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel rhan o'u rôl bresennol, wedi'u hyfforddi i lefel uwch (uwchlaw'r hyn a roddir i grŵp 2);

- sicrhau bod unrhyw gyflogai gwasanaeth cyhoeddus y mae ei sefydliad yn gofyn iddo gyflawni rôl "eiriolwr" ar lefel swyddog[21] o ran y materion hyn wedi'i hyfforddi i lefel uwch (uwchlaw grŵp 2).

Dengys gwersi o Adolygiadau amrywiol o Achosion Difrifol a Dynladdiadau Domestig yn fynych bod angen gwell ymarfer rhyngasiantaethol a rhannu gwybodaeth er mwyn adnabod y rhai sy'n profi cam-drin domestig ac ymateb iddynt yn well. Mae hefyd yn glir y dylai llawer o sefydliadau wella'r ffordd y maent yn adnabod arwyddion o gam-drin a bod mewn gwell sefyllfa i nodi ffactorau risg a phryderon.

Bydd angen i weithwyr proffesiynol yng ngrŵp 3 feddu ar well dealltwriaeth o gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais ar sail rhywedd, yr effaith bosibl ar ddiogelu plant a rheoli risg tramgwyddwyr.  Byddant yn cynorthwyo eu sefydliadau i liniaru unrhyw risg ac amddiffyn oedolion sy'n ddioddefwyr a'u plant. Efallai y byddant hefyd yn gweithio (mewn rôl anarbenigol) â thramgwyddwyr ac yn cynorthwyo cydweithwyr i weithio drwy brosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rhannu data.

### Nod

Bydd cyfranogwyr yn meddu ar well gwybodaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a byddant yn gallu ymarfer yn effeithiol er mwyn cefnogi cydweithwyr a sicrhau bod pob aelod o'r teulu sy'n profi trais a cham-drin yn cael cynnig ymyriadau effeithiol.

### Cynulleidfa

[21] Yn gysylltiedig â'r prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach.  Rhoddir disgrifiad o'r rôl yn Atodiad 4.

Bydd yr hyfforddiant hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- unrhyw weithiwr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ei broffesiwn o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (e.e. diogelu nyrsys, bydwragedd arbenigol);

- y rhai sy'n gweithio gyda grŵp cleientiaid sy'n profi lefel uchel o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (fel gweithwyr cymdeithasol, y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau) neu;

- y rhai lle mae eu sefydliad yn gofyn iddynt gyflawni rôl "eirioli" mewn tîm rheng flaen.

**Cyflenwi**

Cyflenwir grŵp 3 o'r Fframwaith drwy fodel dosbarthu rhanbarthol hefyd, yn seiliedig ar becyn hyfforddi Llywodraeth Cymru. Bydd angen grŵp llai o hyfforddwyr i hyfforddi grŵp 3 ac, fel y cyfryw, dim ond cyfran ddethol o'r consortia a dderbynnir ar gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr grŵp 3. Awgrymir mai'r rheini sydd â gwybodaeth arbenigol o gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r cwrs hwn.

Cyflwynir yr hyfforddiant hwn ar sail dysgu cyfunol, gan ddefnyddio dulliau dysgu annibynnol ac ystafell ddosbarth.

Dylai'r broses o hyfforddi grŵp 3 adlewyrchu cynllun cyflenwi hyfforddiant grŵp 2 er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol yng ngrŵp 2 yn gallu cael gafael ar gymorth a gwell gwybodaeth gweithwyr proffesiynol yng ngrŵp 3.

Y gymhareb a awgrymir ar gyfer Hyfforddeion yng ngrŵp 2 i hyfforddeion yng ngrŵp 3 yw 1:10. Disgwylir gweld cymhareb uwch mewn adrannau sydd â grŵp cleientiaid sy'n dueddol o gynnwys dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau.

Er mwyn sicrhau bod grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar well dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hysbys ac ar gael i bawb sy'n gweithio gyda'r materion hyn, dylid hyfforddi o leiaf 100 o weithwyr proffesiynol y flwyddyn, fesul rhanbarth yng ngrŵp 3 yn ystod y pum mlynedd gyntaf. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi dros 3500 o weithwyr proffesiynol â gwell gwybodaeth ymhob awdurdod perthnasol. (Mae hyn yn cyfateb i 10% o'r gweithwyr proffesiynol â blaenoriaeth yng ngrŵp 2).

**Achredu**

Bydd hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr a'r hyfforddiant a ddosberthir drwy'r consortia hyfforddi rhanbarthol yn cynnwys asesiad ac achrediad ffurfiol. Bydd hefyd yn cydymffurfio â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol canlynol a chymerir pob

cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â DPP mewn amrywiaeth o broffesiynau.

| Rhif Adnabod SGC | Teitl SGC |
|---|---|
| **AG4** | Adnabod ac ymateb i achosion a amheuir o gam-drin pobl o grwpiau agored i niwed |
| **AG5** | Cefnogi'r gwaith o ddiogelu ac amddiffyn pobl o grwpiau agored i niwed |
| **BI101** | Cyfathrebu ac ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig |
| **BI203** | Cyfrannu at y gwaith o asesu dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig |
| **BI302** | Cyfrannu at gynlluniau sy'n rheoli'r risg o niwed i ddioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig |
| **GK101** | Rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig |
| **GK102** | Cyflawni ymyriadau sy'n gwneud dioddefwyr a goroeswyr trais a cham-drin domestig yn fwy diogel |
| **GK502** | Cyfathrebu ac ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol |
| **GK503** | Cynnal asesiad i nodi anghenion a risgiau dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol |
| **GK504** | Rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol |
| **GK505** | Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau i ymdrin â thrais rhywiol |
| **GK510** | Cyfrannu at y gwaith o gefnogi pobl o grwpiau agored i niwed sydd wedi profi trawma |

## 9. Grŵp 4 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

*Mae [fy ngweithiwr cymorth arbenigol] yn fy helpu i gyfathrebu'n well ac yn dod ag arbenigedd sydd ar goll fel arall [i asesiadau teuluol]*

*"Fe wnaethon nhw achub fy mywyd"*

*"Doedd neb arall am wybod. Hwn yw'r unig le sydd wedi helpu mewn gwirionedd"*

Mae grŵp 4 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynnwys y rhai sydd mewn rolau arbenigol ac yn gweithio'n uniongyrchol ac yn gyfan gwbl gyda'r rhai sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[22] Er y gall teitlau swydd gweithwyr yn y maes hwn gael eu dyblygu o fewn gwasanaethau cyhoeddus, mae grŵp 4 ond yn ymwneud â'r gweithwyr hynny sy'n darparu gwasanaethau penodol i'r rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Fel rheol, byddant yn gweithio o fewn gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol.

### Nod

Sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol arbenigol wedi'i hyfforddi'n briodol er mwyn sicrhau bod cleientiaid yn gallu cael gafael ar ymarferwyr arbenigol pan fo angen help arnynt sy'n arwain at;

gysondeb o ran ymarfer dilynol y gweithiwr proffesiynol hyfforddedig a gwell gwasanaethau i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Cynulleidfa

Mae grŵp 4 yn cynnwys y rhai mewn rolau arbenigol sydd angen hyfforddiant arbenigol er mwyn ymarfer. Ymhlith y rolau hyn mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Gweithwyr Allgymorth, Gweithwyr Achos, Gweithwyr Cymorth fel y bo'r Angen, Gweithwyr Lloches/Allweddol, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, Gweithwyr Argyfwng, cwnselwyr, gweithwyr plant a phobl ifanc neu hwyluswyr grŵp ar raglenni tramgwyddwyr.

### Cynnwys

Defnyddir sawl rôl yn y sector arbenigol er mwyn darparu gwasanaethau i'r rhai sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae teitl, disgrifiadau a diben wedi'i gomisiynu rolau o'r fath yn amrywio'n lleol. Fodd bynnag, mae llawer o'r rolau yn amrywio'n fwy o ran teitl na swyddogaeth ac felly mae angen set debyg o sgiliau yn aml. Nid yw'n bosibl, yn y canllawiau hyn, i

[22] Cydnabyddir bod y rhan fwyaf o broffesiynau arbenigol wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdodau perthnasol, yn y sector elusennol arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob gweithiwr arbenigol i gael hyfforddiant priodol, waeth pwy yw'r prif sefydliad.

ddarparu rhestr gynhwysfawr o'r holl rolau lleol gan fod llawer wedi'u henwi er mwyn adlewyrchu anghenion lleol, y gronfa gomisiynu neu gyd-destun y maes y mae'r rôl yn gweithredu ynddo. Mae'r tabl yn Atodiad 3 yn dosbarthu'r rolau'n feysydd pwnc, yn darparu teitlau swydd nodweddiadol sy'n gysylltiedig â'r rhain a chrynodeb byr o ddiben.

Mae'r rolau a geir yma yn ymwneud â chymorth ymarferol, eirioli a chwnsela.

Dylai pob gweithiwr proffesiynol arbenigol fod wedi'i gymhwyso hyd at lefel 3 (Rhwydwaith y Coleg Agored) neu lefel tystysgrif ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau neu lefel uwch ar raglen hyfforddi sy'n benodol i rôl. Mae'r cwrs hwn wedi'i ddylunio i uwchsgilio gweithiwr proffesiynol i gyflawni rôl broffesiynol, yn hytrach na chwrs sy'n benodol i bwnc a fyddai'n gwella gwybodaeth y gweithiwr proffesiynol o un pwnc yn benodol.

Ar gyfer rolau penodol, fel cynghorydd annibynnol ar drais domestig neu weithwyr lloches, dylai'r hyfforddiant gyfateb i 24 credyd neu fwy fel rheol. Gall hyn fod yn is yn achos hyfforddiant ar waith tramgwyddwyr, gweithwyr argyfwng, cwnselwyr a gweithwyr plant a phobl ifanc.

Argymhellir bod yr hyfforddiant a gwblheir yn alwedigaethol, yn benodol i rôl ac wedi'i achredu.

Rhaid i gyrsiau sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig gwmpasu'r canlynol:

- deall cam-drin domestig;
- deall anghenion amrywiol cleientiaid, cynllunio ar eu cyfer ac ymateb iddynt;
- diogelu plant;
- trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a dim hawl ddigolledu i arian cyhoeddus;
- camfanteisio rhywiol;
- trais rhywiol;
- yr effaith ar iechyd;
- stelcio ac aflonyddu;
- nodweddion tramgwyddwyr.

Sgiliau

- ymgysylltu â chleientiaid;
- camau newid;
- technegau cyfweld ysgogiadol;
- adnabod, asesu a rheoli risgiau;
- rheoli achosion;
- cydweithredu amlasiantaethol;
- diffiniadau o rolau, cylch gwaith a diben;
- hunanofal a thrawma dirprwyol;

- rhannu gwybodaeth.

Opsiynau cleientiaid

- y System Cyfiawnder Troseddol (yn gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaeth Prawf);
- defnyddio rhwymedïau cyfraith sifil;
- iechyd meddwl;
- defnyddio sylweddau;
- digartrefedd ac opsiynau tai.

Dylai'r cyrsiau sy'n canolbwyntio ar drais rhywiol ddarparu cynnwys perthnasol fel yr uchod yn ogystal â chynnwys ychwanegol ar y canlynol:

- ymateb pobl i drawma;
- effaith cam-drin hanesyddol ar blant ac oedolion;
- iechyd rhywiol;
- asesiad o anghenion trais rhywiol;
- cynllun a swyddogaeth y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol;
- tramgwydd trais rhywiol;
- therapi cyn llys;
- cynnig cymorth drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Dylai'r cyrsiau sy'n canolbwyntio ar y tramgwyddwr ddarparu'r cynnwys canlynol:

- deall y rheini sy'n defnyddio trais ac yn cam-drin;
- y broses o weithio mewn grwpiau gyda'r rhai sy'n defnyddio trais ac yn cam-drin;
- deall risg yng nghyd-destun gweithio'n uniongyrchol gyda thramgwyddwyr trais domestig a sut i ymateb i newidiadau mewn risg;
- gwneud asesiadau;
- osgoi cydgynllwynio a dwyn tramgwyddwyr i gyfrif;
- dadansoddi digwyddiadau treisgar;
- parch rhywiol;
- diogelu plant ac oedolion agored i niwed yng nghyd-destun gwaith gyda thramgwyddwyr;
- rheoli achosion, goruchwyliaeth a rheoli triniaeth.

Dylai'r cyrsiau sy'n canolbwyntio ar blant ddarparu'r cynnwys canlynol:

- effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar blant a phobl ifanc (o ran eu cydberthnasau eu hunain a chydberthnasau â rhieni);
- damcaniaeth ymlyniad;
- ymateb i drawma;
- diogelu plant a phobl ifanc sy'n profi trais a cham-drin;
- ymgysylltu â phlant a phobl ifanc;

- negodi cyfiawnder troseddol, cyfraith ddinesig ac achosion cael cyswllt sy'n ymwneud â phlant.

Amlinellir cyrsiau addas a ffafrir Llywodraeth Cymru yn Atodiad 3.

**Cyflenwi**

Mae sawl cwrs sy'n bodloni'r meini prawf uchod ar gael yng Nghymru.
Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ariannu darparwyr cenedlaethol i gynnig nifer o leoedd hyfforddi a ariennir bob blwyddyn. Mae hyn yn debygol o bara tan fis Mawrth 2016. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro darpariaeth wedi hynny ac yn ystyried pa anghenion hyfforddi ychwanegol sy'n bodoli i grŵp 4 o'r Fframwaith yn flynyddol.

**Achredu**

Dylai pob cwrs penodol ar gyfer rolau arbenigol gael ei achredu yn ôl y gofynion lefel a chredyd a amlinellir uchod.

**Cymorth parhaus**

Rhaid i weithwyr arbenigol fod yn effro i sefyllfa newidiol gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ynghyd â deddfwriaeth a pholisi cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod y cyngor a'r cymorth a roddir i'w grŵp cleientiaid yn arbenigol ac yn gyfredol. Am y rheswm hwn y mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno gofyniad Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer grŵp 4 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Maent hefyd yn cysoni safonau proffesiynol y proffesiynau hyn â rhai proffesiynau tebyg eraill fel gweithwyr cymdeithasol.

## 10. Grŵp 5 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

Mae grŵp 5 o'r Fframwaith yn cynnwys y rhai sy'n rheoli gwasanaethau eirioli a chymorth arbenigol i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn fach ac yn dibynnu ar reolaeth effeithiol er mwyn cynnig gwasanaeth cynaliadwy o safon uchel.[23]

Nod gofynion hyfforddi'r grŵp hwn yw galluogi rheolwyr gwasanaeth, uwch-weithwyr neu weithwyr proffesiynol arweiniol i weithredu strwythurau rheoli achosion effeithiol, darparu data rheoli perfformiad priodol ac ystyried lles staff. Bydd hefyd yn eu galluogi i arwain eu gwasanaeth drwy drefniadau comisiynu, codi arian, Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig ac Adolygiadau o Achosion Difrifol.

### Nod

Dylai hyfforddiant grŵp 5 alluogi cyfranogwyr i ddeall y prosesau sy'n ofynnol i reoli gwasanaethau ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gwella perfformiad staff rheng flaen drwy reolaeth ac arweinyddiaeth gadarn.

### Cynulleidfa

Byddai'r swyddi a dargedir gan yr hyfforddiant hwn yn cynnwys rheolwyr gwasanaeth cymunedol, rheolwyr lloches, rheolwyr SARC, arweinwyr tîm ac uwch staff fel uwch gynghorydd annibynnol ar drais domestig neu gynghorydd annibynnol ar drais rhywiol arweiniol.

### Cyflenwi

Hyfforddir grŵp 5 o'r Fframwaith drwy rywfaint o hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth Fodd bynnag, gall dysgu cyfunol, gweithdai a setiau dysgu gweithredol gael eu defnyddio hefyd lle bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi SafeLives i ddarparu'r hyfforddiant hwn yn 2014-15 gydag estyniad posibl i 2015-16. Dyma ddewis hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar gyfer rheolwyr gwasanaeth yng Nghymru am iddo gael ei ddatblygu yn unol â manyleb sy'n seiliedig ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac mae'n cynnig neges genedlaethol gyson. Mae'r hyfforddiant yn dwyn ynghyd reolwyr gwasanaeth o bob cwr o Gymru, gan gynnig cyfleoedd rhwydweithio a chyfleoedd am gymorth gan gyfoedion yn y sector ehangach.

### Achredu

Dylai hyfforddiant grŵp 5 gael ei achredu heb fod islaw12 credyd ar lefel 4 (Rhwydwaith y Coleg Agored) er mwyn sicrhau ei fod ar lefel academaidd uwch na chyrsiau grŵp 4 o'r Fframwaith. Mae'r fath gynllun yn cynnig datblygiad academaidd

[23] Cydnabyddir bod y rhan fwyaf o broffesiynau arbenigol wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdodau perthnasol, yn y sector elusennol arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob gweithiwr arbenigol i gael hyfforddiant priodol, waeth pwy yw'r prif sefydliad.

rhwng grwpiau 4 a 5 a fydd yn proffesiynoli'r sector arbenigol ymhellach ac yn cynnig cyfleoedd sy'n cyfrannu at gadw staff medrus.

**Safonau gwasanaeth**

Rhydd deilliannau dysgu grŵp 5 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol safon sylfaenol ar gyfer rheoli gwasanaethau arbenigol a man cychwyn ar gyfer fframwaith sicrhau ansawdd o ran darparu gwasanaethau arbenigol a ddatblygir dros amser.

## 11. Grŵp 6 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

Nod grŵp 6 o'r Fframwaith yw annog creu diwylliant a seilwaith sy'n helpu rheolwyr ac arweinwyr i gyflwyno a gweithredu'r cyfarwyddyd ymarfer a gwybodaeth sy'n bodoli yng ngrwpiau 1 i 5. Mae cyflenwi grŵp 6 yn cyfuno Cynllun Ymgysylltu Strategol i'w adolygu'n flynyddol â chyfres o ddeunyddiau ategol perthnasol.

**Nodau**

Ennyn cyfranogiad arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy godi ymwybyddiaeth a'u haddysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel mater darparu gwasanaeth a gweithlu.

Creu diwylliant a seilwaith sy'n cefnogi nodau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cynulleidfa**

Mae grŵp 6 o'r Fframwaith yn targedu Uwch Arweinwyr y gwasanaeth cyhoeddus. Maent yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) Prif Swyddogion Gweithredol, Arweinwyr Cynghorau a chynghorwyr, Cyfarwyddwyr Personél, Cyfarwyddwyr Gweithlu, Rheolwyr Hyfforddi a Datblygu, arweinwyr Undebau Llafur, Prif Gwnstabliaid, Prif Swyddogion Tân ac Achub, comisiynwyr perthnasol a phartneriaethau.

**Cynnwys**

Bydd cynnwys grŵp 6 o'r Fframwaith yn esblygu gan ddibynnu ar flaenoriaethau strategol ac unrhyw heriau gweithredu a nodir. Dyroddir cynllun cyflenwi blynyddol ar gyfer grŵp 6 gan Lywodraeth Cymru a fydd, lle bo'n briodol, yn cynnwys astudiaethau achos a thystebau gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Cyflenwi**

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyfforddi grŵp 6 o'r Fframwaith a gwneir hyn ar ffurf dwy ffrwd waith.

1) Cynllun Ymgysylltu Strategol

2) Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth

1) Cynllun Ymgysylltu Strategol

Bydd y Cynllun Ymgysylltu Strategol yn golygu ymyrryd yn uniongyrchol er mwyn ennyn cyfranogiad arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau ymrwymiad i weithredu penodol, codi ymwybyddiaeth a llywio diweddariadau polisi a deddfwriaeth.

Mae'r Cynllun Ymgysylltu Strategol yn cynnwys amserlen o ddigwyddiadau perthnasol sydd wedi eu hanelu at arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus, sydd eisoes yn dylanwadu ar strategaeth a chyfeiriad ac eisoes yn derbyn mewnbwn gan arweinwyr. Rhoddir crynodeb o'r math o ddigwyddiadau a gynhwysir isod:

| **Math o fforwm** | **Gweithgaredd penodol** |
|---|---|
| Byrddau/cyfarfodydd/partneriaethau | Bwrdd Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed<br>Cyfarfod y Prif Grŵp Cyflenwi (G42)<br>Bwrdd Cynghori Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br>Grŵp Personél a Datblygu Sefydliadol<br>Gwasanaethau Tân ac Achub<br>Cyngor Partneriaeth y Gweithlu<br>Arweinwyr Cwnsela Awdurdodau Lleol<br>Cyfarwyddwyr CLILC Grŵp Adnoddau Dynol<br>Cyfarfod o Gyfarwyddwyr Gweithlu'r GIG<br>Cydffederasiwn y GIG<br>Fforwm Cydgysylltwyr Cam-drin Domestig |
| Cyfarfodydd Llywodraeth Cymru | Grŵp Busnes<br>Grŵp Gweithrediadau |
| Digwyddiadau | Cynadleddau Priodol<br>Cynadleddau / digwyddiadau wedi'u trefnu gan Lywodraeth Cymru<br>Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyhoeddiadau | Councillor Connect<br>Municipal Journal<br>Cylchlythyrau staff |
| Llythyrau/<br>cyfathrebu | Llythyrau gweinidogol<br>Llythyrau Prif Swyddogion Gweithredol - Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru |

Y bwriad yw y bydd cyflwyniadau Gweinidogol, presenoldeb uwch swyddogion o’r Llywodraeth ac, ymhen amser, y Cynghorydd Cenedlaethol, yn y digwyddiadau hyn yn cynnig gwybodaeth a chyfle i ddylanwadu ar arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus, yng nghwmni eu cydweithwyr, heb wneud galwadau ychwanegol diangen ar eu hamser. Mae hyn yn debygol o esgor ar well ymgysylltu a chyrhaeddiad ehangach.

2) Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth

Cyhoeddir y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth i gefnogi’r negeseuon a ledaenir drwy’r Cynllun Ymgysylltu Strategol. Bydd y gyfres yn rhannu arbenigedd y sector arbenigol, yn rhoi canllawiau ar weithredu cynnwys polisi Llywodraeth Cymru ac yn cyfeirio gwybodaeth o'r Gweinidog er mwyn cyfathrebu’n rheolaidd ar faterion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cyflwynir cynnwys y gyfres hon mewn amrywiaeth o wahanol fformatau, wedi eu dylunio mewn ffordd hawdd eu defnyddio ac i annog yr ymgysylltiad gorau. Gall y fformatau hyn gynnwys:

Clipiau fideo: Portreadau bychain i roi gwybodaeth benodol am bwnc.  Gall hyn gynnwys neges gan y Gweinidog ar hynt gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 neu arbenigwr pwnc yn siarad ar fater cysylltiedig.

Webinarau: Gallai'r rhain gael eu recordio neu eu ffrydio'n fyw gan roi gwybodaeth fanwl am bwnc neu faes gweithredu.  Gallant olygu dysgu rhwng cydweithwyr a rhannu arferion gorau.  Byddai'r gweminarau a fyddai'n cael eu ffrydio'n fyw yn rhyngweithiol gan roi cyfle i holi ac ateb a thrafod.

Sesiynau briffio: Byddai clipiau fideo a gweminarau yn cynnwys sesiynau briffio i roi canllawiau ychwanegol. Gellir defnyddio'r rhain er mwyn helpu i ddirprwyo tasgau cysylltiedig, fel adolygu polisi'r gweithle neu greu llwybrau atgyfeirio.

Ffrydio'n fyw: Lle bo'n bosibl, bwriedir recordio cynadleddau a digwyddiadau byw i gynnig rhith-fynediad atynt.  Hefyd, byddai clipiau wedi eu recordio o'r digwyddiadau hyn ar gael wedyn.

**Deilliannau**

Ystyrir deilliannau sy'n gysylltiedig â newid diwylliant a seilwaith cryfach.  Bydd y rhain yn cynnwys:

- ✓ Mwy o ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan uwch arweinwyr y gwasanaeth cyhoeddus
- ✓ Cyrhaeddiad digwyddiadau
- ✓ Faint o sefydliadau a Chenhadon Rhuban Gwyn sydd yng Nghymru
- ✓ Monitro polisïau'r gweithle
- ✓ Ymrwymiad ysgrifenedig i feysydd gwaith penodol.

**Achredu**

Ni fydd hyfforddiant y grŵp hwn o'r Fframwaith yn cael ei achredu.  Bydd yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol a chymerir pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â DPP mewn amrywiaeth o broffesiynau.

## 12. Y maes llafur pwnc arbenigol

Dylai'r maes llafur pwnc arbenigol fod yn sail i'r holl hyfforddiant a gynigir neu a ddilynir gan awdurdodau perthnasol ar gam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod.

Dylai ystyried sut y caiff anghenion hyfforddi parhaus gweithwyr proffesiynol yn yr awdurdodau perthnasol eu diwallu fod yn gyson â'r maes llafur pwnc arbenigol.

**Nod**

Creu cynnwys, deilliannau dysgu a chymwyseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, trais rhywiol, trais ar sail rhywedd ac yn benodol drais yn erbyn menywod yn faes llafur a reolir yn ganolog sy'n cynnig cysondeb a sicrwydd ansawdd, waeth yr ardal, gan arwain at:

gysondeb o ran ymarfer dilynol y gweithiwr proffesiynol hyfforddedig a gwell gwasanaethau i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cynulleidfa**

Y rhai sydd angen hyfforddiant ar faterion pwnc penodol er mwyn diwallu anghenion cleientiaid sy'n dod i'r amlwg. Gall hyn gynnwys ymwelydd iechyd a fyddai'n cael budd o hyfforddiant ym maes Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod er mwyn nodi'r risgiau o'r fath gam-drin ac ymateb yn effeithiol.

Mae nifer sylweddol o gyrsiau hyfforddi eisoes ar gael ledled Cymru. Caiff rhai o'r cyrsiau hyn eu cynnig fel rhan o ymgyrch genedlaethol i broffesiynoli'r ymateb i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, tra bod eraill yn deillio o fentrau lleol i ddiwallu angen sy'n dod i'r amlwg.

Ni fwriedir i'r Fframwaith gyfyngu ar y cyrsiau hyfforddi hynny a ddatblygir er mwyn diwallu anghenion a nodwyd. Cydnabyddir bod y rhain yn aml yn chwarae rôl werthfawr yn ymateb i amgylchiadau lleol ond mae'n bwysig serch hynny eu bod yn gyson â nodau'r Fframwaith o ran cysondeb a sicrhau ansawdd.

**Cynnwys**

Bydd grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith yn cael y cynnwys sylfaenol i'w galluogi i ymateb yn effeithiol i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd yr hyfforddiant a gynigir i grwpiau 2 a 3 ond yn ymwneud â chysyniadau sylfaenol, egwyddorion a gofynion ymarfer sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ni all gwmpasu'r holl gymhlethdod a ffactorau agored i niwed cysylltiedig sy'n ymwneud â'r materion hyn.

Dylai dysgu ychwanegol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael ei gydnabod yn ofynnol i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus gwasanaeth cyhoeddus perthnasol a dylai hyfforddiant grwpiau 2 a 3 fod yn sail i ddysgu pellach

ar y pynciau hyn. Dylai'r dysgu hwn gael ei arwain gan adolygiadau rheoli unigol, gweledigaeth leol a strategaeth sefydliadol.

Lle mae gweithwyr proffesiynol, rheolwyr ac arweinwyr yn nodi meysydd penodol lle gallent hwy neu eu staff gael budd o well gwybodaeth, nid yw'r hyfforddiant proffesiynol a anelir at rolau arbenigol a gynigir i grŵp 4 yn debygol o fod yn briodol oherwydd gofynion cost ac amser, ond gall cyrsiau pwnc penodol byrrach â mwy o ffocws iddynt fod yn addas.

Mae'r math hwn o hyfforddiant byr ac iddo ffocws wedi cael ei gynnig ledled Cymru ers sawl blwyddyn ac fe'i cynigir yn aml gan ddarparwyr gwasanaeth arbenigol neu drwy bartneriaethau fel y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol neu Fyrddau Gwasanaeth Lleol.

Caiff set amrywiol a chynhwysol o feysydd pwnc eu cwmpasu gan gyrsiau hyfforddi lleol ac, o ran meysydd pwnc, ni chaiff fawr ddim ei hepgor.[24] Fodd bynnag, nid yw'r fath hyfforddiant wedi'i gydgysylltu ledled Cymru. Nid yw'r holl hyfforddiant ar gael ledled Cymru, nid yw darpar ddysgwyr yn ymwybodol o'r meysydd dysgu gwahanol sydd ar gael ac mae strwythur y cyrsiau yn anghymesur.

Mae'r maes llafur pwnc arbenigol yn darparu set o unedau hanfodol achrededig sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n berthnasol i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus pob gweithiwr proffesiynol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r maes llafur, cynhelir gweithgarwch blynyddol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, a bydd yr ystod o faterion pwnc a gwmpesir ynddo yn esblygu dros amser. Bydd fersiynau cyfredol o'r maes llafur ar gael yn www.gov.wales/livefearfree*.*

Bydd y Maes Llafur Pwnc Arbenigol yn cynnwys unedau Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd a gaiff eu llunio ar lefel sylfaenol ac uwch er mwyn adlewyrchu anghenion dysgu gweithwyr proffesiynol arbenigol ac anarbenigol a byddant yn bodoli ochr yn ochr â dysgu achrededig presennol sydd ar gael ar lefel 3 ac uwch a all gael ei ddefnyddio gan randdeiliaid a'i fapio yn erbyn yr hyn a gyflenwir yn barod.

### Cyflenwi

Mae'r unedau yn amlinellu'r deilliannau dysgu sylfaenol sy'n ofynnol gan unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â'r pynciau a gwmpesir ganddynt a gyflenwir gan yr awdurdodau perthnasol naill ai'n unigol neu mewn partneriaeth.

Bydd yr unedau ar gael am ddim ar wefan Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru a bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant lleol ddefnyddio'r modelau hyn yn sail i hyfforddiant ar y pwnc hwn wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Os bydd darparwr yr hyfforddiant mewn sefyllfa i gynnig cyrsiau achrededig Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd, gall y cyrsiau hefyd gael eu cynnig gydag achrediad.

[24] Adroddiad terfynol Agored Cymru: The co-ordination of practical, expert-led advice to the Welsh Government on the Content Areas of Part of the Group 4 National Training Framework for Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence.

Caiff adnoddau defnyddiol a deunyddiau enghreifftiol eu rhestru gyda'r unedau hefyd er mwyn cefnogi cysondeb hyfforddiant, fel y bydd set o fesurau gwerthuso gofynnol. Caiff y gwaith o werthuso hyfforddiant lleol ei fonitro'n achlysurol gan y Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn asesu effaith y model hyfforddi a argymhellir ac ymdrin ag unrhyw ddiffygion.

Mae hefyd yn bwysig bod y gwaith o gyflenwi ac asesu'r unedau hyn yn destun mesurau sicrhau ansawdd. Dylai pob hyfforddwr sy'n cynnig hyfforddiant lleol fod yn brofiadol mewn maes cysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a meddu ar y lefel gywir o ddysgu (wedi neu heb ei achredu) ar gyfer cyflenwi hyfforddiant. Er enghraifft, os yw'n cynnig hyfforddiant ar lefel 3 (dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd) neu lefel tystysgrif, dylai fod wedi'i gymhwyso uwchlaw'r lefel hon.

Y Corff Dyfarnu perthnasol fydd fel arfer yn pennu'r gofyniad ar gyfer asesu hyfforddiant achrededig. Fel rheol, disgwylir y canlynol gan aseswyr a swyddogion sicrhau ansawdd mewnol.

Rhaid i aseswyr:

- feddu ar brofiad cyfredol a/neu berthnasol o asesu;
- bod wedi cael hyfforddiant perthnasol os yw'n newydd i asesu;
- meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda o ofynion asesu;
- bod yn gyfarwydd â lefel yr uned(au)/cymhwyster neu gymwysterau a gyflenwir;
- meddu ar wybodaeth dda o'r pwnc a dealltwriaeth a/neu brofiad o'r uned(au)/cymhwyster neu gymwysterau a asesir (gallai fod mwy o ofynion e.e. tair blynedd o brofiad cyfredol).

Rhaid i swyddogion sicrhau ansawdd mewnol:

- feddu ar brofiad cyfredol a/neu berthnasol o asesu a dilysu'n fewnol;
- bod wedi cael hyfforddiant perthnasol os yw'n newydd i sicrhau ansawdd yn fewnol;
- meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda o ofynion dilysu mewnol.

**Pynciau neu gyrsiau newydd**

Fel y nodir uchod, caiff y maes llafur ei ehangu a'i ddatblygu dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion hyfforddi newidiol, gwella opsiynau achredu ac ehangu'r pynciau a gwmpesir.

Os nodir bod angen cwrs newydd yn lleol, bydd angen cymryd y camau canlynol i restru'r cwrs hwn ym maes llafur pwnc arbenigol Llywodraeth Cymru.

Dylai manylion y cwrs gael eu rhoi i Grŵp Datblygu Cynnwys Llywodraeth Cymru i'w hystyried, drwy dîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig Llywodraeth Cymru.

Dylai'r manylion hyn gynnwys:

- y dadansoddiad o anghenion hyfforddi sy'n dangos yr angen am y cwrs hwn;
- meini prawf hyfforddi'r cwrs hwn (sy'n cynnwys profiad o ymarfer a hyfforddi);
- cynulleidfa arfaethedig y cwrs;
- trefn y cwrs (nifer y dysgwyr, dull o hyfforddi);
- deilliannau dysgu, deilliannau gwerthuso a deunyddiau;
- sut mae'n mapio â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol.

Bydd y Grŵp Datblygu Cynnwys yn darparu proses rheoli ansawdd ar gyfer cyflwyno cyrsiau hyfforddi.  Bydd yn ystyried a yw'r cwrs o ansawdd digonol i'w restru ar y maes llafur, p'un a yw'r cwrs yn gorgyffwrdd â chyrsiau eraill a restrir, addasrwydd y cwrs i gynulleidfaoedd amlasiantaeth a ph'un a yw'n cysylltu'n briodol â llwybrau atgyfeirio cenedlaethol sy'n ymwneud â darpariaeth arbenigol a Gofyn a Gweithredu.

Pan gaiff cwrs ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y Fframwaith, daw'n gwrs a ardystir gan Lywodraeth Cymru ac felly'r model hyfforddi a argymhellir ar bwnc penodol.

Bydd y broses hon yn mynd ochr yn ochr â'r gwaith datblygu parhaus a gynhelir drwy Lywodraeth Cymru.

**Achredu**

Dros amser, bydd y gyfres o unedau Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd yn cael ei hehangu er mwyn cynyddu'r lefelau hyfforddiant sydd ar gael a'r amrywiaeth o feysydd pwnc a gwmpesir.  Bydd integreiddio pob cwrs yn becyn dysgu achrededig, sy'n hygyrch dros amser, ar lefelau academaidd gwahanol yn ffurfio rhan o waith tymor hwy.

**Y gorgyffwrdd rhwng trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a hyfforddiant ar amddiffyn a diogelu plant.**

Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn defnyddio'r diffiniadau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod, fel yr amlinellir yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015).  Nid yw'r Ddeddf yn nodi ystod oedran ar gyfer profi'r materion hyn ac felly mae'n cynnwys plant a phobl ifanc.

Felly, disgwylir y bydd angen gwahaniaethu rhwng hyfforddiant sy'n ymwneud â diogelu plant, gyda phrosesau amddiffyn a diogelu plant yn ffocws, a chyrsiau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac effaith uniongyrchol y materion hyn.  Am y rheswm hwn, bydd y maes llafur pwnc arbenigol yn rhestru pynciau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n faterion diogelu ac y bydd angen eu gosod yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, nid yw'n rhestru hyfforddiant diogelu plant ehangach sy'n ofynnol gan weithwyr proffesiynol perthnasol yn barod ac sy'n bodoli yn lleol.

Er bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion diogelu, mae'n bwysig nad ydynt **ond** yn cael eu hystyried yn faterion amddiffyn plant. Gallai gwneud hynny hepgor oedolion o wasanaethau sydd eu hangen arnynt a methu anghenion ehangach teuluoedd y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt. Diben y Fframwaith penodol ac iddo ffocws yw cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd a chyfiawnder cymdeithasol pwysig, sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn faterion sylfaenol.

Fodd bynnag, derbyniwn, i lawer o broffesiynau, y bydd integreiddio elfennau o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn hyfforddiant presennol sy'n canolbwyntio ar amddiffyn plant yn ffordd effeithlon a synhwyrol o fodloni ei ofynion ac a all, i'r gwrthwyneb i orfodi gwahanu hyfforddiant, sy'n ymddangos yn fympwyol, i staff nad oes ganddynt fawr ddim amser ar gyfer dysgu a datblygu, gyfyngu ar gyrhaeddiad gofynnol y wybodaeth hon.

Lle bwriedir integreiddio'r pynciau, rhaid i faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael eu fframio'n briodol a chyflawni'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu a amlinellir yn y fframwaith ac fe'u cydnabyddir yn faterion yn eu rhinwedd eu hunain ac maent ar wahân i bryderon i'w hystyried dim ond pan ganolbwyntir ar ddiogelu plant.

## 13. Y cynllun cyflenwi a dosbarthu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

| | 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | 2017-2018 | 2018-2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp 1** | Dylunio a lansio pecyn eDdysgu | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant sefydlu gorfodol | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant sefydlu gorfodol | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant sefydlu gorfodol | Y pecyn e-Ddysgu'n rhan o hyfforddiant sefydlu gorfodol |
| **Grŵp 2** | | Lansio hyfforddiant Gofyn a Gweithredu prawf | Dechrau cyflwyno Gofyn a Gweithredu yn genedlaethol | Dechrau cyflwyno Gofyn a Gweithredu yn genedlaethol | Dechrau cyflwyno Gofyn a Gweithredu yn genedlaethol |
| **Grŵp 3** | | Lansio hyfforddiant prawf grŵp 3 | Dechrau cyflwyno hyfforddiant grŵp 3 yn genedlaethol | Dechrau cyflwyno hyfforddiant grŵp 3 yn genedlaethol | Dechrau cyflwyno hyfforddiant grŵp 3 yn genedlaethol |
| **Grŵp 4** | Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyd at 48 o weithwyr proffesiynol.<br><br>Annog Cymru i fanteisio ar hyfforddiant wedi'i ariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol | Annog Cymru i fanteisio ar hyfforddiant wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. [25]<br><br>Lansio maes llafur pwnc arbenigol.<br><br>Ystyried anghenion hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r rhai y mae trais rhywiol yn effeithio arnynt. | Hyfforddiant arbenigol penodol i Gymru | Hyfforddiant arbenigol penodol i Gymru | Hyfforddiant arbenigol penodol i Gymru |
| **Grŵp 5** | Lansio cwrs cymorth rheoli gwasanaeth arbenigol ar | Cyflwyno cwrs cymorth rheoli gwasanaeth arbenigol ar gyfer hyd at | Ei gyflwyno'n genedlaethol yn gysylltiedig â'r gyllideb a'r galw | Ei gyflwyno'n genedlaethol yn gysylltiedig â'r gyllideb a'r galw | |

[25] Caiff pynciau arbenigol perthnasol eu hariannu lle bo modd yn seiliedig ar yr angen a nodir.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyfer hyd at 48 o reolwyr gwasanaeth | 48 o reolwyr gwasanaeth (ar alw) | | | Ei gyflwyno'n genedlaethol yn gysylltiedig â'r gyllideb a'r galw |
| **Grŵp 6** | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth | Cynllun Ymgysylltu Strategol<br><br>Y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth |

**Cynllun ariannu**

| Grŵp hyfforddi'r Fframwaith | Crynodeb cyflenwi | Cyllid |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | Pecyn eDdysgu wedi'i ddylunio gan Lywodraeth Cymru ar gael i bob gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru drwy Learning@NHSWales neu Academi Cymru Gyfan. | Wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac am ddim. |
| **Grŵp 2** | Dim ond y consortia hyfforddi rhanbarthol sydd wedi'i ardystio gan Lywodraeth Cymru a ddylai gyflenwi hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu". | Ariennir y gwaith o ddatblygu a chyflenwi cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr ac amser y consortia rhanbarthol i hyfforddi hyd at 35,000 o weithwyr proffesiynol rhwng 2014 a 2020 gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Rhennir y gyllideb rhwng ariannu datblygiadau a chyflwyno'r hyfforddiant cychwynnol gan ddarparwr canolog a dyraniad i bob rhanbarth er mwyn sybsideiddio a chefnogi model Hyfforddi'r Hyfforddwr. Caiff y dyraniad dros y pum mlynedd nesaf ei lywio gan waith peilot a wneir yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16. Mae gwaith cynllunio cychwynnol yn awgrymu y gwnaiff dyraniad rhanbarthol o £10,000-£14,000 y flwyddyn sybsideiddio'r hyn sy'n ofynnol. |
| **Grŵp 3** | Dim ond y consortia hyfforddi rhanbarthol sydd wedi'i ardystio gan Lywodraeth Cymru a ddylai hyfforddi grŵp 3. | Ariennir y gwaith o ddatblygu a chyflenwi cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr ac amser y consortia rhanbarthol i hyfforddi hyd at 3,500 o weithwyr proffesiynol rhwng 2014 a 2020 gan Lywodraeth Cymru. |
| **Grŵp 4** | Ar gyfer rolau proffesiynol arbenigol: | Ariannwyd hyfforddiant ar gyfer 96 o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn ystod 2013-15 er |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyrir bod cyrsiau hyfforddi sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau yn addas i fodloni'r gofynion ar gyfer gweithwyr proffesiynol arbenigol yng ngrŵp 4. Os ystyrir cwrs ychwanegol i'r hyn a restrir yn Atodiad 3 yn lleol, dylai'r dewis o hyfforddiant gael ei ardystio gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Rhaid i'r holl hyfforddiant lleol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gydymffurfio â'r deilliannau a amlinellir yn y maes llafur pwnc arbenigol. | mwyn sybsideiddio cyllid presennol y Swyddfa Gartref.<br><br>Bydd cyllid ar gael ar gyfer hyfforddiant dethol bob blwyddyn. Bydd yr hyn a ddewisir yn seiliedig ar strategaeth Llywodraeth Cymru a'r angen a nodir.<br><br>Caiff y gwaith o ddatblygu'r maes llafur a'i achredu'n gyffredinol ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Nid ariennir y gwaith o achredu dysgwyr unigol yn lleol a'r dysgwr neu ei gyflogwr a fyddai'n gyfrifol am hynny. (Mae achrediad o ran y maes llafur yn opsiynol) |
| **Grŵp 5** | Dewis gwrs hyfforddi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheolwyr gwasanaeth fydd y rhaglen a gaffaelir ar y pryd. | Mae wedi'i hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014-16. Bydd yn seiliedig ar alw wedi hynny ac yn destun aildendro. |
| **Grŵp 6** | Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am grŵp 6. Caiff y Cynllun Ymgysylltu Strategol a'r Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth eu hariannu a'u cyflenwi'n ganolog. | Wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac am ddim. |

**Atodiad 1**

Gweithwyr proffesiynol a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i'w blaenoriaethu ar gyfer grŵp 2.

| **Bwrdd Iechyd Lleol** | |
|---|---|
| *Yn y canllawiau gwreiddiol* | *Ceisiadau ychwanegol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus* |
| Bydwragedd<br>Ymwelwyr Iechyd<br>Meddygon Teulu<br>Staff Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys<br>Staff camddefnyddio sylweddau ymhob haen o'r fframwaith trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Cymru<br>Nyrsys Seiciatrig Cymunedol<br>Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl<br>Nyrsys ardal<br>Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) | Nyrsys Iechyd Rhywiol<br>Nyrsys Plant<br>Nyrsys Ardal<br>Nyrsys Practis<br>Gwaedwyr (yn enwedig y rhai sy'n gweithio ym maes bydwreigiaeth)<br>Staff oncoleg<br>Ffisiotherapyddion<br>Caplaniaid o fewn ysbytai<br>Staff deintyddol<br>Staff cyswllt seiciatrig<br>Radiograffwyr/Seinograffegwyr |
| **Awdurdod Lleol** | |
| *Yn y canllawiau gwreiddiol* | *Ceisiadau ychwanegol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus* |
| Gweithwyr Cymdeithasol Amddiffyn Plant<br>Gweithwyr Cymdeithasol Diogelu Oedolion Agored i Niwed<br>Athrawon<br>Swyddogion diogelu arweiniol mewn Addysg<br>Nyrsys ysgol<br>Swyddogion Tai, Opsiynau tai a Digartrefedd<br>Gweithwyr achos Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | Gweithredwyr Canolfannau Gwasanaeth Cyhoeddus<br>Iechyd Galwedigaethol<br>Staff Dechrau'n Deg<br>Swyddogion Cynhwysiant Lles<br>Staff Adnoddau Dynol<br>Gweithwyr gofal yn y cartref<br>Pob gweithiwr cymdeithasol (yn ychwanegol at y gweithwyr cymdeithasol penodol a enwyd yn y canllawiau)<br>Staff yng nghanolfannau gwasanaethau cwsmeriaid canolog Awdurdodau Lleol<br>Gweithwyr Cymdeithasol Addysg, darlithwyr coleg a phrifysgol<br>Casglwyr sbwriel<br>Gofalwyr |
| **Awdurdod Tân ac Achub** | |
| Pob diffoddwr tân â chyfrifoldebau cymunedol | |
| **Ymddiriedolaethau'r GIG** | |
| Parafeddygon, technegwyr meddygol achosion brys a thimau gofal dybryd | |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| | |

**Atodiad 2**

Integreiddio'r Fframwaith o bosibl â modelau dysgu presennol

| | | Cynulleidfa | Yn gyson â | Cynnwys penodol sy'n gorgyffwrdd | Opsiynau cyflenwi a awgrymir |
|---|---|---|---|---|---|
| Dogfen Ryng-golegol | Lefel 1 | Pob aelod o staff mewn lleoliadau gofal iechyd | **Grŵp 1 o'r Fframwaith** | Cam-drin plant gan gynnwys masnachu ac anffurfio organau cenhedlu benywod<br>Effaith cam-drin domestig ar blant | Defnyddio pecyn eDdysgu Llywodraeth Cymru (sy'n bodloni gofynion grŵp 1 o'r Fframwaith) fel rhan o hyfforddiant diogelu grŵp 1 neu'n ychwanegol ato<br><br>(Hyfforddiant wyneb yn wyneb yn unig)<br>Ymgorffori deilliannau dysgu grŵp 1 o'r Fframwaith yn hyfforddiant diogelu cymunedol grŵp 1. |
| | Lefel 2 | Staff anghlinigol a chlinigol sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc a rhieni a gofalwyr | **Grŵp 2 o'r Fframwaith** | Atgyfeirio plentyn sydd mewn perygl o gael ei fasnachu, ei gam-drin yn rhywiol a dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod<br><br>Rhannu gwybodaeth briodol a pherthnasol â thimau eraill | Drwy hyfforddiant grŵp 2 (Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) hyfforddiant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Lefel 3 | Pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a rhieni ac a allai gyfrannu at asesu anghenion plentyn neu berson ifanc lle ceir pryderon diogelu | | Cynnwys Adolygiadau o Achosion Difrifol. | Drwy hyfforddiant grŵp 2 (Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) hyfforddiant |

**Atodiad 3**

**Cyrsiau hyfforddi priodol, sy'n cydymffurfio â deilliannau gweithwyr proffesiynol arbenigol grŵp 4 o'r Fframwaith**

**Cyrsiau penodol ar gyfer rolau arbenigol**

| Rôl | Diben y rôl | Darparu gwasanaeth i'r rhai sydd wedi profi: | Grŵp cleientiaid a gaiff y gwasanaeth | Cyrsiau hyfforddi priodol |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig | Rhoi cymorth mewn argyfwng ac yn y tymor canolig i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf a chydgysylltu cydweithrediad amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar y cleient. | Cam-drin domestig, trais rhywiol mewn perthynas agos, cam-drin ar sail "anrhydedd", priodas dan orfod, stelcio ac aflonyddu mewn perthynas agos. | Gwasanaethir pob grŵp cleientiaid. | Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig SafeLives[26]<br><br>NOCN Tystysgrif Lefel 3 yn Atal a Gweithredu yn erbyn Trais yn y Cartref - Cymorth i Ferched Cymru |
| Gweithwyr Allgymorth/Gweithwyr Achos | Cynnig cymorth mewn argyfwng ac yn y tymor canolig i'r rhai nad ydynt yn wynebu risg uchel. | | Gall fod yn fenywod yn unig, yn dibynnu ar y prif sefydliad. | Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig SafeLives<br><br>NOCN Tystysgrif Lefel 3 yn Atal a Gweithredu yn erbyn Trais yn y Cartref - Cymorth i Ferched Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Gweithwyr Cymorth fel y bo'r Angen | Darparu cymorth emosiynol ac ymarferol yng nghartref y cleient ei hun. Gall gynnwys cymorth gyda thenantiaeth. | | Gall fod yn fenywod yn unig, yn dibynnu ar y prif sefydliad. | Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig SafeLives<br><br>NOCN Tystysgrif Lefel 3 yn Atal a Gweithredu yn erbyn Trais yn y Cartref - Cymorth i Ferched Cymru |
| Gweithwyr Lloches/Allweddol | Rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol i breswylwyr lloches. | | Mae'r rhan fwyaf o lochesi ar gyfer un rhyw yn unig ac mae'r rhan fwyaf yng Nghymru yn darparu gwasanaethau i fenywod (er bod rhai unedau ar gael i ddynion yn unig). | Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig SafeLives<br><br>NOCN Tystysgrif Lefel 3 yn Atal a Gweithredu yn erbyn Trais yn y Cartref - Cymorth i Ferched Cymru |
| Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol | Cynnig cymorth a arweinir gan anghenion ac arbenigedd ar y broses cyfiawnder troseddol ac adalw DNA fforensig. | Trais rhywiol mewn perthynas agos a lle mae'r tramgwyddwr yn ddieithr neu'n adnabyddus Cam-drin | Gwasanaethir pob grŵp cleientiaid. | Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Ymddiriedaeth Goroeswyr Cymru<br><br>Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Lime Culture<br><br>Hyfforddiant ISVA Rape Crisis England and Wales |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhywiol hanesyddol. | | Cwrs trosi IDVA-ISVA SafeLives (lle mae'r ISVA eisoes wedi cwblhau hyfforddiant IDVA SafeLives) |
| Gweithwyr Argyfwng/Eiriolaeth | Cynnig cymorth ar unwaith pan adroddir achos a thrwy unrhyw archwiliad fforensig neu feddygol yn dilyn trais rhywiol. | Trais rhywiol mewn perthynas agos a lle mae'r tramgwyddwr yn ddieithr neu'n adnabyddus | Gwasanaethir pob grŵp cleientiaid. | Hyfforddiant gweithwyr argyfwng Llywodraeth Cymru<br><br>Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Ymddiriedaeth Goroeswyr Cymru<br><br>Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Lime Culture<br><br>Hyfforddiant ISVA Rape Crisis England and Wales<br><br>Cwrs trosi Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Thrais Rhywiol SafeLives |
| Cwnselwyr trais rhywiol | Cynnig gwasanaethau therapiwtig tymor canolig i dymor hwy yn dilyn trais rhywiol. | Trais rhywiol mewn perthynas agos a lle mae'r tramgwyddwr yn ddieithr neu'n adnabyddus Cam-drin | Gwasanaethir pob grŵp cleientiaid | Cwrs cwnsela trais rhywiol Llywodraeth Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhywiol hanesyddol. | | |
| Hwyluswyr gwaith grŵp | Gweithio'n uniongyrchol gyda thramgwyddwyr cam-drin domestig mewn lleoliad gwaith grŵp gwirfoddol | Gyda'r rheini sydd wedi defnyddio (yn hytrach na phrofi) trais a chamdriniaeth yn erbyn partneriaid neu gyn-bartneriaid. | Dynion yn unig yw'r rhan fwyaf o grwpiau | Hyfforddiant Respect ar Redeg Grwpiau i Ddynion sy'n Defnyddio Trais Rhwng Partneriaid Agos, Sgiliau Hanfodol ar gyfer Hwyluswyr Gwaith Grŵp |
| Gweithwyr Plant a Phobl Ifanc | Gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt (naill ai ar ffurf un i un neu mewn grŵp) o fewn gwasanaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol. | Cam-drin domestig rhwng rhieni, trais rhwng partneriaid, cam-drin ar sail "anrhydedd", priodas dan orfod, stelcio ac aflonyddu mewn perthynas agos | Y rhai o dan 18 oed waeth beth fo'u rhywedd. | Nid oes modd nodi cymhwyster a dderbynnir yn dda sy'n gysylltiedig â'r rôl hon.  Ystyrir datblygu hyfforddiant o'r fath yn y dyfodol.<br><br>Rhestrir y prif gyrsiau isod:<br><br>Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc:<br><br>Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Ymddiriedaeth Goroeswyr Cymru<br><br>Hyfforddiant Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Lime Culture<br><br>**Cam-drin domestig:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Pecyn cymorth Respect a achredir gan Respect UK<br><br>Pecyn cymorth STAR a achredir gan Cymorth i Fenywod Cymru |

## Atodiad 4

**Rôl awgrymedig yr eiriolwr yn erbyn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (lefel swyddog)**

Er mwyn gweithio'n effeithiol gyda dioddefwyr, mae angen i weithwyr proffesiynol feddu ar ddealltwriaeth gyffredin o'r materion a gallu ymateb mewn ffordd gydlynol a chyson. Bydd hyrwyddwyr yn helpu i annog y fath ddealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol yn eu hasiantaethau er mwyn sicrhau bod anghenion dioddefwyr a'u teuluoedd yn cael eu hystyried wrth ddarparu gwasanaethau yn eu hardal.

Bydd hyrwyddwyr yn:

- Cael eu hyfforddi i lefel uwch ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (yng ngrŵp 3 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol)
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth yn eu sefydliad (neu faes gwasanaeth) sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y sefydliad cyfan a sbarduno camau gweithredu mewn ymateb.
- Hyrwyddo ymgyrchoedd cam-drin domestig lleol a chenedlaethol fel rhan o strategaeth gyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol y sefydliad, gan gynnwys sicrhau bod posteri/taflenni yn cael eu harddangos ac ar gael.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Integredig Sengl (a Chynlluniau Lles yn ddiweddarach) gan sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag anghenion lleol ac yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a, maes o law, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Leol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng eich sefydliad (neu faes gwasanaeth) a sefydliadau partner er mwyn cefnogi gwaith amlasiantaethol effeithiol.
- Hyrwyddo arfer da yn eich sefydliad (neu faes darparu gwasanaeth), gan dynnu sylw at waith partneriaeth ac amlasiantaethol sy'n allweddol i ddarparu gwasanaeth effeithiol, cyson ac integredig a gwell canlyniadau i unigolion a theuluoedd sy'n profi trais a cham-drin domestig.
- Hyrwyddo ac ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- Cefnogi gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r Broses Gofyn a Gweithredu a'u hyrwyddo ymhlith staff.
- Cefnogi Polisi Gweithle'r sefydliad ei hun a'i hyrwyddo ymhlith staff.
- Cydweithio â'r Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Chydgysylltydd Cam-drin Domestig a, maes o law, y Cynghorydd Rhanbarthol, Arweinwyr Strategol perthnasol, Cyfarwyddiaethau a Swyddogion er mwyn sicrhau y cymerir camau cydgysylltiedig a strategol i ymdrin â Cham-drin Domestig yn eich sefydliad cyfan (maes darparu gwasanaeth).

- Gweithio gyda'r swyddogion a'r partneriaid perthnasol er mwyn tynnu sylw at unrhyw faterion neu bryderon o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chynnig datrysiadau.
- Mynd i gyfarfodydd perthnasol fel y bo angen.

## Atodiad 5

**Maes llafur pwnc arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

| **Cam-drin domestig** | **Trais rhywiol** | **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a phlant** | **Deall caethwasiaeth fodern** | **Trais yn erbyn menywod** | **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a chydraddoldeb ac amrywiaeth** | **Anghenion cymhleth, lluosog** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagofynnol (lefel 2 o leiaf – wyth uned gychwynnol)** | | | | | | |
| Ymwybyddiaeth o gam-drin domestig | Ymwybyddiaeth o drais rhywiol | Effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar blant a phobl ifanc | Ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern | Ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod | Deall cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gweithio gyda'r rhai sydd ag anghenion cymorth lluosog sy'n cydfodoli. |
| **Unedau datblygu opsiynol (lefel 3 ac uwch)** | | | | | | |
| Adnabod risg a'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) | Rôl y gweithiwr argyfwng | Profiad pobl ifanc o drais mewn perthynas agos | Rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol | Priodas dan orfod | Gweithio gyda dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n bobl Lesbiaidd, | Diagnosis deuol: iechyd meddwl a cham-drin domestig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Hoyw, Deurywiol a Thraws | |
| Y glasoed yn cam-drin rhieni | Rôl y cwnselydd trais rhywiol | Effaith cam-drin domestig ar blant | | Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod | Gweithio gyda'r rhai Na Chânt Hawl Ddigolledu i Arian Cyhoeddus a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Digartrefedd a cham-drin domestig |
| Gweithio gyda thramgwyddwyr cam-drin domestig | | Cam-drin plant yn rhywiol | | Trais yn erbyn menywod a'r gyfraith | Gweithio gyda dynion sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol | Gweithio gyda gweithwyr rhyw |
| Dull teulu cyfan o ymdrin â cham-drin domestig | | Gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu cam-drin | | Trais ar sail anrhydedd | Gweithio gyda dioddefwyr hŷn cam-drin domestig | Defnyddio sylweddau, iechyd meddwl a cham-drin domestig - y "triawd tocsig" |
| Cam-drin domestig a'r gyfraith | | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | | | | Diagnosis deuol: camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig |

Enghraifft yn unig yw hwn. Datblygir y Maes Llafur Pwnc Arbenigol yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth â hwy. Dengys y tabl uchod sut y gallai'r maes llafur gael ei ffurfio a'r posibilrwydd o fini-gymwysterau ynddo. Efallai y bydd y maes llafur yn cynnwys yr unedau hyn, yn ogystal ag eraill a nodir dros amser sy'n ymwneud ag unrhyw grŵp cleientiaid a materion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.